# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATIAETH**

Dyddiad ac Amser

**2.00 y.h., DYDD IAU, 16EG MAWRTH, 2023**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol / Virtual Meeting**

I gael mynediad cyhoeddus i'r cyfarfod, cysylltwch â ni

Pwynt Cyswllt

**Eirian Roberts**

**01286 679018**

(Dosbarthwyd Dydd Mercher, 8 Mawrth 2023)

# PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATIAETH

**AELODAETH (15)**

## Plaid Cymru (8)

Y Cynghorwyr

| | |
|---|---|
| Annwen Hughes | Linda Ann Jones |
| Olaf Cai Larsen | Edgar Wyn Owen |
| Gwynfor Owen | Llio Elenid Owen |
| Arwyn Herald Roberts | Beca Roberts |
| Sedd Wag - Plaid Cymru | |

## Annibynnol (4)

Y Cynghorwyr

| | |
|---|---|
| Anwen J. Davies | Anne Lloyd-Jones |
| Eryl Jones-Williams | Dewi Owen |
| John Pughe | |

## Llafur/Rhyddfrydol (1)

Y Cynghorydd Stephen Churchman

## Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

# R H A G L E N

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

**3. MATERION BRYS**

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd.

**4. COFNODION** 4 - 10

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod blaenorol o'r Pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 15 Tachwedd 2022 fel rhai cywir.

**5. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PENNAETH GWASANAETHAU DEMOCRATIAETH** 11 - 17

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth.

**6. CEFNOGAETH I GYNGHORWYR A DIOGELWCH CYNGHORWYR** 18 - 20

Cyflwyno adroddiad ar y cyd gan y Rheolwr Democratiaeth ac Iaith, y Pennaeth Cynorthwyol Cefnogaeth Gorfforaethol a'r Swyddog Hyfforddiant Aelodau.

**7. DARPARIAETH DYSGU A DATBLYGU I AELODAU** 21 - 29

Cyflwyno adroddiad y Rheolwr Dysgu a Datblygu'r Sefydliad.

**8. CEFNOGAETH I GYNGHORWYR - PERFFORMIAD Y TIM GWASANAETHAU DEMOCRATIAETH** 30 - 33

Cyflwyno adroddiad y Rheolwr Gwasanaethau Democratiaeth ac Iaith a'r Arweinydd Tim Democratiaeth.

**9. ADRODDIAD PANEL ANNIBYNNOL CYMRU AR GYDNABYDDIAETH ARIANNOL** 34 - 42

Cyflwyno adroddiad y Rheolwr Gwasanaeth Democratiaeth ac Iaith.

# PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATIAETH DYDD MAWRTH, 15 TACHWEDD 2022

**YN BRESENNOL:**

**Cynghorwyr:**
Dewi Owen (Cadeirydd), Stephen Churchman, Anwen J. Davies, Anwen Hughes, Eryl Jones-Williams, Anne Lloyd-Jones, Linda Ann Jones, Olaf Cai Larsen, Edgar Wyn Owen, Gwynfor Owen, Llio Elenid Owen, Arwyn Herald Roberts, John Pughe, Beca Roberts a Menna Jones (Aelod Cabinet Cefnogaeth Gorfforaethol).

**Swyddogion:** Vera Jones (Rheolwr Gwasanaeth Democratiaeth ac Iaith), Geraint Owen (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Ian Jones (Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol), Annes Sion (Arweinydd Tîm Democratiaeth) a Sioned Mai Jones (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

**Yn bresennol ar gyfer eitem 6:** Sion Gwynfryn Williams (Rheolwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu).
**Yn bresennol ar gyfer eitem 8:** Carey Cartwright (Rheolwr Dysgu a Datblygu'r Sefydliad) a Cara Williams (Swyddog Datblygu Aelodau).

## 1. YMDDIHEURIADAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriadau.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

## 3. MATERION BRYS

Ni chodwyd unrhyw faterion brys.

## 4. COFNODION

Derbyniodd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod blaenorol y pwyllgor hwn a gynhaliwyd 5 Gorffennaf, 2022 fel rhai cywir.

## 5. PENNAETH GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD

**PENDERFYNIAD**
**Penodi Ian Jones, Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol i swydd statudol Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd.**

Mynegodd Cadeirydd y Pwyllgor ei ddiolch i'r Cyn-bennaeth Gwasanaethau Democrataidd am ei waith dros y 7 mlynedd ddiwethaf gan ddymuno pob llwyddiant iddo yn ei swydd newydd fel Cyfarwyddwr Corfforaethol.

Diolchodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol am y geiriau caredig a chyfleu ei werthfawrogiad i aelodau presennol yn ogystal â chyn aelodau'r Pwyllgor hwn am y cydweithio dros y blynyddoedd. Nododd ei ddiolchiadau i'r Cadeiryddion dros y blynyddoedd ac i Reolwr y Gwasanaeth Democratiaeth ac Iaith â'r tîm am y gefnogaeth.

Eglurwyd bod angen penodi Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd newydd gan ei bod yn rôl statudol.

Adroddwyd bod Ian Jones bellach wedi cael ei benodi fel Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol a chynhigiwyd derbyn yr argymhelliad i benodi Ian Jones yn Bennaeth Gwasanaethau Democrataidd. Mynegwyd hyder y byddai'r Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol yn rhoi'r ddyledus barch i'r swyddogaeth hon.

Yn dilyn pleidlais unfrydol croesawyd y Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol i'r rôl. Mynegodd ei ddiolchiadau am y gefnogaeth ar ei benodiad fel Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd gan adrodd ei fod yn anrhydedd ymgymryd â'r rôl. Adroddodd ei fod yn edrych ymlaen at gydweithio a chefnogi'r Aelodau yn eu gwaith dros y blynyddoedd nesaf.

Nid oedd unrhyw sylwadau pellach.

## 6. CEFNOGAETH I GYNGHORWYR

**PENDERFYNWYD:**
**Nodi'r sylwadau a derbyn y wybodaeth.**

Cyflwynwyd yr adroddiad oedd yn adrodd ar ganlyniadau'r holiadur a anfonwyd i'r holl Aelodau ym mis Hydref 2022.

Nodwyd mai rhan gyntaf yr holiadur oedd holi Aelodau am amseriad cyfarfodydd y Cyngor. Adroddwyd ar y canlyniadau gan nodi bod 42 aelod wedi ateb yr holiadur yn llawn. Nodwyd bod y canlyniadau yn dangos parodrwydd i addasu rhywfaint ar rai o gyfarfodydd y Cyngor megis symud amser cychwyn y Cyngor Llawn o 1:00yp i 1:30yp. Dangosa'r canlyniadau bod awydd i barhau efo amseru cyfredol y Pwyllgorau Craffu ond bod rhai wedi mynegi awydd i newid amser y Pwyllgor Cynllunio i gychwyn am 10:00yb. Ychwanegwyd y gall newid o'r fath greu anawsterau ynghylch cynnal ymweliadau safle.

Adroddwyd y bydd y canlyniadau yn cael eu defnyddio fel sail i'r calendr cyfarfodydd 2023/24. Cadarnhawyd bod trafodaethau a gwaith pellach i'w wneud wrth ystyried amser cychwyn y Pwyllgor Cynllunio cyn dod i gasgliad. Adroddwyd bod yr holiadur wedi amlygu'r angen am doriad amserol mewn Pwyllgorau; nodwyd y bydd hyn yn derbyn sylw ac yn cael ei drafod gyda Cadeiryddion gwahanol Bwyllgorau.

Nodwyd bod ail ran yr adroddiad yn cyfeirio at fodlonrwydd yr Aelodau efo'r tîm Gwasanaethau Democratiaeth a chyfeiriwyd at y sylwadau sydd wedi eu nodi yn yr adroddiad. Adroddwyd bod trydedd rhan yr adroddiad yn ymdrin â materion cyfathrebu a nod yr uned o gyfleu negeseuon yn amserol a hwylus i Aelodau. Nodwyd bod y canlyniadau yn foddhaol ar y cyfan.

I gloi nodwyd bod sylwadau wedi eu cyflwyno megis brolio'r sesiynau anffurfiol Merched sy'n Gynghorwyr gan nodi bod y rhain yn hybu cydweithio ymhlith Cynghorwyr benywaidd ac yn codi hyder y Cynghorwyr hyn. Derbyniwyd sylwadau positif ar y rhaglen hyfforddi yn ogystal â sylwadau ar ddiogelwch Cynghorwyr.

Yn ystod y drafodaeth cododd y sylwadau canlynol:

- Mynegwyd awydd i barhau efo amser cyfredol y Pwyllgor Cynllunio. Credwyd bod cynnal y Pwyllgorau yn y prynhawn yn gweithio'n dda ac yn galluogi cynnal ymweliadau safle yn rhwydd ar fore'r Pwyllgor. Nodwyd y byddai'n fwy costus i'r Cyngor pe bai angen cynnal yr ymweliadau safle ar ddiwrnod arall.
- Gwnaethpwyd sylw ar ddiogelwch Cynghorwyr yn dilyn cyfarfod arbennig o'r Cyngor Llawn ym mis Awst a thybiwyd os oedd angen ail ystyried trefniadau diogelwch y Cyngor. Adroddwyd bod dau Gynghorydd wedi derbyn bygythiadau difrifol o ganlyniad i'r cyfarfod

dan sylw a cwestiynwyd a ddylai'r Heddlu fod yn bresennol pan fydd eitemau dadleuol yn cael eu trafod.

- Credwyd bod y dirwedd wleidyddol wedi newid a phryderwyd gweld rhagor o ddigwyddiadau tebyg yn y dyfodol. Nodwyd hefyd bod cyfrifoldeb ar Gynghorwyr i gymryd sylw o'r hyn maent yn ei gyfleu a'r iaith sy'n cael ei ddefnyddio.
- Mynegwyd gwerthfawrogiad bod asesiadau risg bellach yn cael eu cynnal.
- Nodwyd ei bod yn rhan o rôl Cynghorydd i herio er enghraifft aelodau'r Pwyllgorau Craffu a bod cyfrifoldeb i siarad ar ran eu cynrychiolwyr. Ychwanegwyd ei bod yn bwysig cymryd ystyriaeth o'r cod ymddygiad wrth herio.
- Diolchwyd i'r gwasanaeth am eu cymorth.

Mewn ymateb i'r sylwadau:

- Ategwyd y bydd ystyriaethau pellach i'w gwneud wrth ddylunio calendr cyfarfodydd 2023/24 ac mai cam cychwynnol yw adrodd ar ganlyniadau'r holiadur. Nodwyd y bydd ystyriaeth yn cael ei roi i'r awgrym o anfon holiadur pellach i aelodau'r Pwyllgor Cynllunio.
- Diolchwyd am y sylwadau am ddiogelwch Cynghorwyr a staff gan adrodd bod camau penodol wedi eu cymryd ers y cyfarfod ym mis Awst. Adroddwyd bellach bod asesiadau risg yn cael eu cynnal cyn bob Pwyllgor hybrid er mwyn arbed tarfu ar gyfarfodydd a lleihau'r risg i Aelodau, y cyhoedd a swyddogion y Cyngor. Ychwanegwyd mai un cam yn unig yw'r asesiadau risg a bod llawer o waith yn digwydd ar y cyd efo'r uned Iechyd a Diogelwch.
- Adroddwyd y byddai'n rhesymol i adrodd ar gynnydd y gweithrediad asesiadau risg ac i'w gynnwys fel eitem i'r Pwyllgor hwn yn y dyfodol er mwyn i'r Aelodau gael gweld y cynnydd.

## 7. DEDDF LLYWODRAETH LEOL AC ETHOLIADAU (CYMRU) 2021

**PENDERFYNWYD:**

**a) Derbyn yr adroddiad gan nodi sylwadau ar y Cynllun Deisebau fydd yn cael ei argymell i'r Cabinet.**

**b) Adnabod y Cynghorwyr Dewi Owen, Beca Roberts a Stephen Churchman fel aelodau i gynorthwyo gyda'r gwaith o ddatblygu protocol 'Cymorth a Gwasanaethau Ymchwil i Gynghorwyr'.**

Cyflwynwyd yr eitem gan osod cyd-destun y Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Eglurwyd bod yr adroddiad yn cyfeirio at dair elfen o'r Ddeddf ac yn rhoi diweddariad i'r Pwyllgor ar y camau gweithredu perthnasol a'r gwaith sydd wedi ei wneud hyd yma yn unol â gofynion y Ddeddf. Nodwyd bod tîm gweithredol o'r Gwasanaeth Democratiaeth ac Iaith a'r Gwasanaeth Cyfreithiol wedi ei sefydlu er mwyn ymgymryd â'r gwaith.

Adroddwyd bod gofyniad yn y Ddeddf i Awdurdodau Lleol gyhoeddi Strategaeth Cyfranogiad er mwyn nodi'r ffyrdd y caiff pobl leol eu hannog i gymryd rhan ym mhrosesau'r Cyngor o wneud penderfyniadau. Nodwyd bod y tîm gweithredol wedi bod yn datblygu strategaeth ddrafft a bydd y strategaeth honno yn cael ei datblygu dros amser wrth i arferion da ddod i'r amlwg. Ychwanegwyd ei bod yn ofynnol cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar y Strategaeth a bwriedir cyflwyno canfyddiadau'r ymgynghoriad yn y fersiwn derfynol o'r strategaeth i'r Cyngor Llawn ym mis Mawrth.

Nodwyd mai gofyniad arall yn ôl y Ddeddf yw creu a chyhoeddi Cynllun Deisebau. Eglurwyd nad yw hyn yn rhywbeth newydd i'r Cyngor ond nad oes unrhyw ganllawiau penodol mewn lle ar hyn o bryd yn amlygu'r camau. Ategwyd bod y Cynllun wedi ei gynnwys yn yr adroddiad fel atodiad ac yn dilyn derbyn sylwadau'r Pwyllgor heddiw bydd y Cynllun yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet ddiwedd Tachwedd i'w argymell i'w fabwysiadu gan y Cyngor Llawn ym mis Rhagfyr. Ychwanegwyd y byddai'r Swyddogion yn ddiolchgar o dderbyn unrhyw sylwadau gan y Pwyllgor.

Y gofyniad olaf yw rhoi sylw i ganllawiau Cymorth a Gwasanaethau Ymchwil i Gynghorau. Adroddwyd bod y ddogfen yn nodi y dylai pob Aelod allu cael gafael ar amrywiaeth o wybodaeth a chyngor; mae'r protocol hwn yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd. Nodwyd bod angen adnabod tri Aelod i gynorthwyo gyda'r gwaith yma er mwyn sicrhau mewnbwn Aelodau.

Yn ystod y drafodaeth cododd y sylwadau canlynol:

- Gofynnwyd am eglurder ynglŷn â'r posibilrwydd o gyflwyno deiseb bapur yn hytrach na drwy e-bost ac am y nifer o lofnodwyr ar ddeiseb. Mynegwyd pryder bod deisebau efo llai na 100 o enwau am gael eu gwrthod a chredwyd y byddai hyn yn cael effaith ar faterion mewn pentrefi bach. Gofynnwyd i'r geiriad gael ei ail ystyried.
- Holiwyd am eglurder ynglŷn â'r pwynt am aelodau o'r cyhoedd yn gallu gofyn cwestiwn yn y Cyngor Llawn a gofynnwyd os yw hyn yn golygu newid i'r Cyfansoddiad.
- Cyfeiriwyd at ddau achos ble roedd Aelod wedi holi dau Bennaeth Adran am wybodaeth; cafwyd ymateb boddhaol gan un Pennaeth ond credwyd bod yr ymateb yn siomedig gan y Pennaeth arall.
- Cwestiynwyd pa mor ddefnyddiol ydi deisebau gan nodi y gall casglu dros 100 o lofnodion fod yn hawdd a phryderwyd pa bynciau fyddai yn amlygu eu hunain. Credwyd ei bod yn bwysig gallu hidlo'r deisebau a chael canllawiau cadarn mewn lle ynglŷn â beth sy'n dderbyniol.
- Croesawyd y Cynllun deisebau fydd yn rhoi eglurhad i'r cyhoedd o'r broses.
- Derbyniwyd 3 enw i gynorthwyo gyda'r gwaith Cymorth a Gwasanaethau Ymchwil i Gynghorwyr.

Mewn ymateb i'r sylwadau:

- Diolchwyd am y sylwadau teg ar y Cynllun Deisebau gan nodi y bydd yr addasiadau perthnasol yn cael eu gwneud er mwyn bod yn fwy penodol a chlir yn y Cynllun. Cadarnhawyd y bydd disgresiwn gan y Cyngor i dderbyn deisebau efo llai na 100 o lofnodion ac y byddent yn derbyn ystyriaeth.
- Cadarnhawyd bod y Cyfansoddiad eisoes yn cyfeirio at hawl aelodau'r cyhoedd i ofyn cwestiwn yn y Cyngor Llawn a'r bwriad yw amlygu'r hawl yno ymysg y cyhoedd. Nodwyd bod trefniant penodol mewn lle sy'n cynnwys derbyn rhag rybudd o'r cwestiwn.
- Croesawyd y sylwadau ar ymatebion i ymholiadau Aelodau ac anogwyd yr Aelodau i drafod enghreifftiau unigol efo'r Cyfarwyddwr Corfforaethol sydd yn arwain ar y gwaith o edrych ar sut mae'r Cyngor yn ymateb i ymholiadau Aelodau.
- Eglurwyd bod gwahanol ffyrdd o ymateb i ddeisebau gan gynnwys ymateb uniongyrchol gan yr Aelod Cabinet neu drafodaeth yn y Cabinet neu mewn Pwyllgor Craffu. Ychwanegwyd y bydd y Cynllun yn egluro'r drefn o gyflwyno deiseb i'r Cyngor gan o bosib nad yw'r cyhoedd yn ymwybodol ar hyn i bryd am nad oes canllawiau clir.

## 8. DARPARIAETH DYSGU A DATBLYGU I AELODAU

**PENDERFYNWYD:**
**Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau a gyflwynwyd.**

Cyflwynwyd trosolwg o'r ddarpariaeth Dysgu a Datblygu i Aelodau gan amlygu llwyddiannau, sialensiau a datblygiadau. Adroddwyd bod dewis o hyfforddiant rhithiol ac wyneb yn wyneb yn cael ei gynnig er mwyn darparu amrywiaeth i'r Aelodau ond hefyd annog llai o deithio.

Mynegwyd y byddai'r uned Dysgu a Datblygu yn ddiolchgar o dderbyn sylwadau am y ddarpariaeth er mwyn gallu addasu a gwella i geisio ymateb i ofynion Aelodau. Nodwyd bod y Rhaglen Datblygu Aelodau Etholedig yn esblygu ac yn gyfuniad o geisiadau gan Swyddogion

y Cyngor ac Aelodau. Anogwyd yr Aelodau i roi eu barn ar beth y dymunant ei weld ar y Rhaglen.

Yn ystod y drafodaeth cododd y sylwadau canlynol:

- Mynegwyd bod y cyfnod Cofid wedi newid bywydau a bod y cynnig o hyfforddiant rhithiol o fantais i lawer am ei fod yn arbed amser teithio Cynghorwyr ac yn arbed arian i'r Cyngor.
- Credwyd bod safon yr hyfforddiant yn dda iawn.
- Mynegwyd safbwynt bod y cyrsiau neu'r hyfforddiant rhithiol yn anoddach i'w deall a'u cofio o gymharu â'r rhai sy'n cael eu cynnal wyneb yn wyneb ble gall Aelodau gyd-drafod a sgwrsio, credwyd bod y rhain yn fwy effeithiol.
- Ategwyd y farn uchod gan nodi bod hyfforddiant wyneb yn wyneb yn fwy diddorol.
- Nodwyd y byddai'n ddefnyddiol gweld rhestr o ba hyfforddiant mae Aelodau wedi eu mynychu ac angen eu mynychu, yn enwedig efo'r hyfforddiant hanfodol.
- Adroddwyd bod y Cyngor yn arfer cynnig hyfforddiant ar sut i ddelio efo'r wasg e.e. cyfweliadau teledu neu radio, a broliwyd yr hyfforddiant hwn. Gofynnwyd a fydd rhywbeth tebyg yn cael ei gynnig yn y misoedd nesaf.
- Ategwyd y sylw uchod efo budd derbyn hyfforddiant ar sut i ddeilio efo'r wasg yn ogystal ag elfen o hyfforddiant ar siarad yn gyhoeddus.
- Holiwyd am y drefn o ddarparu adborth ar ôl mynychu hyfforddiant.
- Mynegwyd sylw y byddai mwy o hyfforddiant yn ymwneud a Deddfau a'r ochr gyfreithiol o fudd er mwyn cael gwell eglurder am y materion hyn.
- Diolchwyd i'r uned Dysgu a Datblygu am eu gwaith.

Mewn ymateb i'r sylwadau:

- Mynegwyd ei bod yn bwysig cynnig amrywiaeth o hyfforddiant rhithiol ac wyneb yn wyneb a bod yr uned yn ceisio taro'r balans cywir.
- Nodwyd bod modd gweld rhestr o ba hyfforddiant mae Aelodau unigol wedi eu mynychu ar y Modiwl Datblygu Staff o dan Fy Nghofnod Hyfforddi. Gall y Swyddog Datblygu Aelodau anfon e-bost at yr Aelodau yn esbonio ble i ddod o hyd i'r cofnod hwn.
- Adroddwyd y gall sesiwn hyfforddi ar ddelio efo'r wasg gael ei drefnu pe bai'r Aelodau yn dymuno. Ychwanegwyd yn hanesyddol fod yr hyfforddiant hwn yn cael ei gynnig i Aelodau Cabinet neu Gadeiryddion ond cytunwyd y dylai gael ei gynnig yn ehangach. Nodwyd bod y sesiynau ar gyfer Aelodau Cabinet wedi cael eu trefnu at ddechrau 2023; bydd yr uned yn trafod pryd sy'n amserol i gynnig yr hyfforddiant i weddill yr Aelodau.
- Cymerwyd y cyfle i gyfeirio at yr Adolygiad Datblygiad Personol sydd ar gael i bob Aelod ac yn gyfle i gael sgwrs unigol efo'r uned Dysgu a Datblygu er mwyn adnabod meysydd gwahanol, cyfleoedd neu flaenoriaethau i'w cynnwys yn eu rhaglen ddatblygu personol.
- Cadarnhawyd bod ffurflen adborth yn cael ei e-bostio at Aelodau yn dilyn yr hyfforddiant.
- Cadarnhawyd bod rhagor o hyfforddiant ar y gweill gan gynnwys hyfforddiant yn ymwneud â Deddfau. Nodwyd bod yr uned wedi canolbwyntio ar yr hyfforddiant hanfodol yn bennaf ers yr Etholiadau ym Mai 2022. Bydd hyfforddiant mwy meddal er enghraifft Darllen Cyflym yn cael eu cynnig yn ystod y blynyddoedd nesaf.

**9. ADRODDIAD DRAFFT PANEL ANNIBYNNOL CYMRU AR GYDNABYDDIAETH ARIANNOL**

**PENDERFYNWYD:**
**Derbyn yr adroddiad gan nodi sylwadau'r Pwyllgor ar gyfer llunio ymateb i ymgynghoriad adroddiad drafft Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol ac ar y trefniadau i adolygu uwch gyflogau.**

Cyflwynwyd yr adroddiad oedd yn argymell i gynyddu cyflog sylfaenol Cynghorwyr i £17,600, sef cynnydd o 4.76%. Gofynnwyd am sylwadau ar gyfer llunio ymateb i ymgynghoriad adroddiad drafft Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol sydd yn amlinellu'r newidiadau a fwriedir ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24. Eglurwyd mai cyfrifoldeb y Panel yw gosod lefelau cyflogau Cynghorwyr Cymru a bod eu rôl yn hollol annibynnol.

Ychwanegwyd nad oes rhaid i Aelodau dderbyn y cyflog, mae'r hawl ganddynt i wrthod y cyflog ond rhaid gwneud hynny yn ysgrifenedig i'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd.

Adroddwyd mai 18 yw'r uchafswm o uwch gyflogau y gellir eu talu ac mae'r adroddiad yn manylu ar argymhellion a safbwynt y Panel. Cadarnhawyd mai 17 allan o'r 18 uwch gyflog sydd wedi eu neilltuo ar gyfer 2022/23 yn sgil y newidiadau o benodi Aelod Lleyg yn Gadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Gofynnwyd i'r Pwyllgor adolygu'r sefyllfa ar gyfer 2023/24. Nodwyd bod y rhestr o'r uwch gyflogau i'w weld ym mharagraff 17 o'r adroddiad.

Nodwyd bod yr adroddiad yn cyfeirio at adolygu cyfrifoldebau Cadeiryddion Pwyllgorau felly bydd y tîm Democratiaeth yn ceisio asesu'r pwysau gwaith a'r cyfrifoldebau ar y Cadeiryddion dros y misoedd nesaf. Bydd y canlyniadau yn cael eu hadrodd yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth ym mis Mawrth 2023 er mwyn llunio argymhelliad i gyfarfod blynyddol y Cyngor llawn ym mis Mai.

Yn ystod y drafodaeth cododd y sylwadau canlynol:

- Mynegwyd sylw bod yr Aelodau wedi derbyn beirniadaeth yn barod am dderbyn rhagor o gyflog.
- Gwnaethpwyd sylw bod Aelodau yn gallu hawlio ad-daliadau costau gofal i'w cynorthwyo efo gofal plant a bod ganddynt hawl i absenoldeb mamolaeth a chwestiynwyd os oedd yr holl Aelodau yn ymwybodol o hyn.
- Ategwyd bod hyn hefyd yn wir i ofalwyr sydd â dibynyddion a'i bod yn bwysig hyrwyddo'r cymorth sydd ar gael.
- Mynegwyd siomedigaeth nad oedd gwahaniaeth yng nghyflogau Cynghorwyr Tref a Chynghorwyr ardaloedd gwledig. Ychwanegwyd nad oedd angen i Gynghorwyr ardaloedd trefnol ddefnyddio eu ceir na thalu am logi ystafelloedd ar gyfer cynnal cymorthfeydd felly yn arbed llawer o arian o gymharu â Chynghorydd ward gwledig. Credwyd bod y diffyg ystyriaeth i'r costau ychwanegol i Gynghorwyr gwledig yn annheg.
- Ategwyd mai'r ffordd fwyaf teg o benderfynu pa Gadeiryddion Pwyllgorau sy'n derbyn yr uwch gyflog fydd drwy edrych ar eu rôl yn unigol a'u llwyth gwaith.

Mewn ymateb i'r sylwadau:

- Nodwyd bod y Gwasanaeth yn parhau i gymryd camau i godi ymwybyddiaeth o'r hyn sydd ar gael i Aelodau o ran ad-daliadau costau gofal. Cyfeiriwyd at y Llawlyfr Aelodau sy'n cyfeirio at yr hyn sydd ar gael.
- Nodwyd bod gwybodaeth yn yr adroddiad llawn gan Banel Annibynnol Cymru ar gydnabyddiaeth ariannol a gall y Rheolwr Gwasanaeth Democratiaeth ac Iaith anfon copi o'r adroddiad llawn i Aelodau pe baent yn dymuno.
- Ychwanegwyd y gall y Gwasanaeth drefnu i nodi'r wybodaeth mewn lleoliad amlycach ar y Mewnrwyd Aelodau.
- Cadarnhawyd y bydd Swyddogion yn holi Cadeiryddion Pwyllgorau am eu cyfrifoldebau â'r gofynion sydd arnynt fel Cadeirydd Pwyllgor er mwyn derbyn eu sylwadau ar gyfer ystyriaeth bellach yng nghyfarfod mis Mawrth o'r Pwyllgor hwn.

Dechreuodd y cyfarfod am 13:00 a daeth i ben am 14:50.

**CADEIRYDD**

| | |
|---|---|
| **Cyfarfod** | Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth |
| **Dyddiad y cyfarfod** | 16 Mawrth 2023 |
| **Pwnc** | Adroddiad blynyddol gan y Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth ar ran y Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth yng nghyswllt cefnogaeth i Aelodau |
| **Argymhelliad** | Gofynnir i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth am ei sylwadau ar yr adroddiad drafft yn amlinellu'r gefnogaeth sydd ar gael i Gynghorwyr a'r hyn fydd yn cael ei ddatblygu i'r dyfodol. |
| **Swyddog Cyswllt:** | Ian Jones,<br>Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth |

**Beth yw'r cefndir ac ystyriaethau perthnasol?**

1. Cyflwynir isod ddrafft o'm adroddiad sydd i'w chyflwyno i'r Cyngor Llawn yn ei gyfarfod ym mis Mai 2023. Mae'n ofynnol i mi gyflwyno adroddiad i'r Cyngor llawn yn flynyddol yn amlinellu'r gefnogaeth sydd ar gael i Gynghorwyr. Rwy'n gwerthfawrogi eich mewnbwn i gynnwys yr adroddiad.

2. Yn unol a gofynion Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, mae'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth yn gyfrifol am faterion penodol (dan Adran 11), fel a ganlyn:
    - Cyflawni rôl yr awdurdod lleol i benodi Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth
    - Adolygu'r gefnogaeth sydd ar gael yng nghyswllt staff, adeiladau ac adnoddau eraill sydd ar gael i'r Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth, er mwyn sicrhau eu bod yn ddigonol ar gyfer gofynion y rôl,
    - Cynhyrchu adroddiad, o leiaf pob blwyddyn, i'w chyflwyno i'r Cyngor Llawn yng nghyswllt cefnogaeth i Aelodau.

3. Mae wedi bod yn flwyddyn hynod brysur, yn arbennig yn sgil etholiad Llywodraeth Leol, gan groesawu 69 o Gynghorwyr y tymor hwn, gyda 25 Cynghorydd newydd i'r rôl.

4. Rydw innau hefyd yn newydd i'r rôl ers mis Tachwedd 2022 ac yn awyddus i barhau i ddysgu a'ch cefnogi yn y modd mwyaf effeithiol. Byddaf yn adeiladu ar y seiliau cadarn sydd eisoes wedi eu gosod gan y Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth blaenorol, Geraint Owen. Cymeraf y cyfle hwn i ddiolch yn swyddogol ar ein rhan i Geraint am ei holl waith caled.

5. Yn ogystal, dymunaf ddiolch i chi fel aelodau’r Pwyllgor am eich croeso a’ch sylwadau adeiladol hyd yma.  Rwyf hefyd am ddiolch i swyddogion y Gwasanaeth Democratiaeth ac Iaith am eu gwaith caled a’u cefnogaeth, i’r Swyddog Monitro am ei arweiniad cyson, ac unrhyw swyddogion eraill sy’n cynorthwyo i’ch cefnogi yn eich rôl.  Edrychaf ymlaen at gyd-weithio gyda chi gyd i’r dyfodol er mwyn datblygu’r ddarpariaeth ymhellach.

6. Mae adroddiad blynyddol eleni yn un cryno ac yn canolbwyntio ar y datblygiadau a wnaethpwyd yn ystod y flwyddyn yn hytrach nag amlinellu’r holl gefnogaeth sydd ar gael i Aelodau.  Yn ogystal mae’n amlinellu’r prif flaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn i ddod.

7. Bydd yr adroddiad yn cael ei gyflwyno i gyfarfod y Cyngor Llawn ar y 4ydd o Fai 2023 yn dilyn derbyn eich sylwadau heddiw.

**Beth yw’r argymhelliad i’r Pwyllgor?**

Gofynnir i’r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth am ei sylwadau ar yr adroddid drafft yn amlinellu’r gefnogaeth sydd ar gael i Gynghorwyr a’r hyn fydd yn cael ei ddatblygu i’r dyfodol.

# Adroddiad Blynyddol y Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth – Cefnogaeth i Gynghorwyr Gwynedd

2022/23

RHAGAIR

Mae'n bleser gennyf gyflwyno fy adroddiad blynyddol yn amlinellu'r gefnogaeth sydd ar gael i Gynghorwyr Gwynedd.  Mae wedi bod yn flwyddyn hynod brysur, yn arbennig wrth groesawu 69 ohonoch yn Gynghorwyr ym mis Mai 2022, gyda 25 Cynghorydd newydd i'r rôl.

Mae blwyddyn yn dilyn etholiad Llywodraeth Leol yn annatod yn hynod brysur ac rwy'n falch o fod wedi bod yn rhan o'r bwrlwm yma.  Mae wedi bod yn flwyddyn llawn iawn i bob un ohonoch chi - wrth ail afael yn eich rôl fel Cynghorydd, rhai ohonoch gyda wardiau gwahanol, eraill ohonoch wedi cychwyn yn y rôl am y tro cyntaf.

Mae wedi bod yn brofiad newydd i minnau hefyd ar ôl cychwyn fel Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth ers mis Tachwedd 2022.  Byddaf yn adeiladu ar y seiliau cadarn sydd eisoes wedi eu gosod gan y Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth blaenorol, Geraint Owen.  Cymeraf y cyfle hwn i ddiolch yn swyddogol ar ein rhan i Geraint am ei holl waith caled.

Rwy'n awyddus i barhau i ddysgu a'ch cefnogi yn y modd mwyaf effeithiol a fyddai hynny ddim yn bosib heb eich cefnogaeth chi fel Cynghorwyr a chefnogaeth y gwahanol swyddogion sy'n gweithio yn y cefndir.  Diolch i bawb, yn arbennig y Gwasanaeth Democratiaeth ac Iaith.

Edrychaf ymlaen i gyd-weithio gyda chi dros y blynyddoedd i ddod.

Cofion,

Ian



**Ian Jones,**

**Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth**

## LLWYDDIANNAU 2022/23

Gan fy mod wedi cael y fraint o gymryd drosodd yn y rôl yn ystod y flwyddyn rwyf wedi cymryd y cyfle hwn i adlewyrchu ar yr hyn sydd wedi ei gyflawni yn ystod y flwyddyn a fu.  Mae wedi fy synnu cynifer o faterion sydd wedi digwydd am y tro cyntaf eleni.

### 2022/23 – y tro cyntaf i ni.....

- groesawu **69** o Gynghorwyr yn dilyn yr etholiad ar sail y wardiau newydd yng Ngwynedd
- gael **treuan** o'r Cynghorwyr yn Gynghorwyr benywaidd
- gynnal **dyddiau croeso** yn **aml- leoliad** a hynny dros ddau ddiwrnod i gyd-fynd â rheolau diogelwch Covid-19
- roi dewis o ddarpariaeth **technoleg gwybodaeth** er mwyn eich hwyluso yn eich rôl gan annog pawb i gael sgrin ychwanegol er mwyn hwyluso cyfarfodydd aml-leoliad
- greu **llawlyfr** bychan defnyddiol i Gynghorwyr i'w croesawu a'u cynorthwyo yn eu rôl dros eu dyddiau cyntaf.  Mae'r llawlyfr wedi dyddio eisoes, ond mae'n cael ei ddiweddaru yn electroneg ar y mewnrwyd Cynghorwyr.
- gynnal ein **pwyllgorau** (Cyngor llawn, Cabinet, pwyllgor Cynllunio a phwyllgorau Craffu) yn **aml leoliad** gan sicrhau cyfieithu ar y pryd a gwe ddarlledu yn y ddwy iaith – a hynny ers dechrau mis Mai 2022.  Mae hyn yn galluogi Cynghorwyr a swyddogion i ymuno o bell, gan fod yn fwy hyblyg i Gynghorwyr sy'n gweithio neu sydd â dyletswyddau gofalu.
- orfod galw'r **heddlu** i gyfarfod o'r Cyngor llawn yn sgil aflonyddu gan y cyhoedd.  Mae wedi esgor ar **drefniadau diogelwch** ac asesu risg mwy cadarn ac wedi dod a diogelwch Cynghorwyr i'r brig.
- gael **cyfnod galaru** yn ystod y tymor, oedd yn arwain at ail drefnu nifer o'r cyfarfodydd cyhoeddus oedd yn arwain at fwy o ofyn ar Gynghorwyr a staff mewn cyfnod byr
- gael **cwestiwn gan y cyhoedd** yn ystod un o gyfarfodydd y Cyngor Llawn
- fabwysiadu **Cynllun Deisebau** fel bo eglurder gan y cyhoedd sut i gyflwyno deiseb i'r Cyngor
- fabwysiadu **Strategaeth Cyfranogiad** i hyrwyddo mewnbwn y cyhoedd i benderfyniadau democrataidd
- gyfathrebu yn gyson â chi trwy gyfrwng **Bwletin Cynghorwyr** wythnosol er mwyn sicrhau rhannu gwybodaeth yn uniongyrchol ac amserol gyda chi fel Aelodau.

## 2022/23 – parhau a’r gefnogaeth

Yn ogystal, rydym hefyd wedi llwyddo i gynnal y gwasanaethau a’r rhaglen waith arferol yn y cyfnod ar ôl etholiad. Llwyddwyd i

- ✓ Gynnal y rhaglen bwyllgorau ar gyfer y flwyddyn, xxxx (bydd y ffigwr yn cael ei lenwi ar ddiwedd y flwyddyn) o gyfarfodydd i gyd, a hynny gan gywasgu i gyfnod llai na’r arferol yn sgil y cyfnod ôl-etholiad a’r cyfnod galaru. Roedd yn ofynnol cymryd amser i sefydlu’r pwyllgorau ar ôl yr etholiad a chynnal hyfforddiant i sicrhau dealltwriaeth o rôl y gwahanol bwyllgorau yr un pryd.
- ✓ Gweinyddu cyflogau a chostau Cynghorwyr a chyhoeddi’r wybodaeth yn unol a’r gofynion statudol
- ✓ Cyflawni’r holl waith cefndirol yn dilyn etholiad – sefydlu rhif cyflog, cyfeiriad ebost, tudalen we i bob Cynghorydd, gweinyddu cyflogau ayyb
- ✓ Cyhoeddi canlyniadau’r etholiad yn fyw o’r ganolfan gyfrif, a’r holl waith wedi ei gwblhau yn llwyddiannus erbyn dechrau’r prynhawn
- ✓ Cynnig rhaglen lawn o “gyflwyno gwybodaeth a hyfforddiant” i Gynghorwyr dros y flwyddyn. Roedd hyn yn cynnwys rhaglennu sesiwn gwybodaeth gyda phob Pennaeth Adran dros y 6 – 8 wythnos cyntaf er mwyn rhoi trosolwg i Gynghorwyr o waith pob Adran fewn y Cyngor. Mae recordiad o’r sesiynau ar gael ar y mewnrwyd aelodau.
- ✓ Blaenoriaethwyd y sesiynau hyfforddiant i ymdrin a’r prif faterion oedd angen sylw gan Gynghorwyr ar ddechau eu tymor. Roedd hyn ar sail ymgynghori gydag aelodau’r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth.
- ✓ Yn sgil niferoedd isel yn mynychu rhai sesiynau hyfforddiant, rydym wedi adolygu ein trefniadau i sicrhau gwerth gorau unrhyw sesiynau hyfforddiant sy’n cael eu cynnig.
- ✓ Hyfforddi Cadeiryddion ar drefniadau hybrid wedi iddynt gael eu penodi ac wrth iddynt gynnal pwyllgor! Mae wedi bod yn brofiad o ddysgu wrth fynd ymlaen i staff a Chynghorwyr, ac rydym yn parhau i ddysgu ac addasu hyd heddiw. Rydym yn ddiolchgar i bawb am eu cydweithrediad ac amynedd wrth i ni symud y gwaith yma ymlaen.
- ✓ Adolygu’r cydbwysedd gwleidyddol a phenodi i bwyllgorau ar sail y cydbwysedd gwleidyddol gan weinyddu hynny o fewn amserlen fer iawn.
- ✓ Cynnal holiadur ynghylch amseru cyfarfodydd y Cyngor ar gyfer y tymor gan ymgorffori’r canlyniadau i galendr 23/24 ymlaen.
- ✓ Gweinyddu’r trefniadau i benodi i gyrff allanol.
- ✓ Parhau i weinyddu cyfarfodydd cydbwyllgor corfforedig Gogledd Cymru a Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, gan weinyddu eu is-fyrddau hefyd.
- ✓ Defnyddio a pharhau i ddatblygu’r mewnrwyd aelodau ar ei newydd wedd. Mae’n llawer iawn haws ei ddefnyddio i gael hyd i wybodaeth – gadewch i ni wybod beth sydd ar goll neu angen ei addasu ymhellach. Mae llawer iawn o wybodaeth am lles meddyliol, diogelwch Cynghorwyr ayyb ar y safle mewnrwyd.

- ✓ Cynnal holiadur bodlonrwydd am wasanaethau'r tîm democratiaeth, gan ail afael yn ein trefniadau herio perfformiad o gynnal sgyrsiau gyda 1 neu 2 Cynghorydd yn fisol i gael gwahanol bersbectif ar sut i wella ein gwasanaeth a chefnogaeth i Gynghorwyr.
- ✓ Cynnal sesiynau anffurfiol 'sgwrs dros baned' i ferched sy'n Gynghorwyr, fel cefnogaeth anffurfiol.
- ✓ Cynnal sesiynau anffurfiol 1-1 gyda Chynghorwyr fel mae'r angen yn codi i gynnig cefnogaeth ee sesiynau mentora a chyfle i drafod datblygiad personol.
- ✓ Cynnal hyfforddiant penodol i'r Aelodau Cabinet

## 2023/24 – parhau a'r gefnogaeth

Mae'r gwaith yn parhau flwyddyn ar flwyddyn i geisio eich cefnogi chi i gyflawni yn eich rôl fel Cynghorwyr.  Fel rwyf wedi nodi,  mae'r blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn i ddod yn golygu parhau i adeiladu ar y seiliau cadarn iawn sydd gennym eisoes.

Mae'n debyg y byddwn hefyd yn canolbwyntio ar y blaenoriaethau isod:

| BLAENORIAETH | ESBONIAD |
|---|---|
| Diogelwch a chefnogaeth i Gynghorwyr | Parhau i roi ffocws ar faterion diogelwch i Gynghorwyr yn ogystal a chefnogaeth lles a iechyd meddwl i Gynghorwyr. |
| Sgyrsiau datblygiad personol | Byddwn yn cynnig sesiynau 1-1 i Gynghorwyr i drafod cefnogaeth o ran datblygiad yn eu rôl a pharatoi at rolau posib yn y dyfodol ee rôl Cadeirydd. |
| Edrych ar ein trefniadau craffu yn dilyn gwaith Archwilio Cymru | Byddwn yn edrych ar ein trefniadau craffu yn sgil allbwn gwaith Archwilio Cymru i'n trefniadau cyfredol, gan edrych a oes angen mwy o hyfforddiant neu addasu ein pwyllgorau mewn unrhyw fodd. |
| Cyngor di-bapur | Symud at fod yn Gyngor di bapur er mwyn lleihau ein ôl troed carbon a gwireddu'r arbedion perthnasol i'r Cyngor |

Mae gan aelodau'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth rôl allweddol i'w chwarae ac mae fy niolch yn fawr i bawb ohonynt am fod yn llais ar eich cyfer i gyd yn dwyn materion gwahanol i'n sylw.   Rydym yn ceisio ymateb lle y gallwn.

Cofiwch gysylltu gyda mi neu unrhyw un o'r tîm yn uniongyrchol i drafod unrhyw bryderon. Rwy'n edrych ymlaen at gyd-weithio gyda chi dros y flwyddyn i ddod.

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod** : | 16 Mawrth 2023 |
| **Pwnc** | Cefnogaeth i Gynghorwyr a Diogelwch Cynghorwyr |
| **Argymhelliad** | Gofynnir i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth dderbyn yr adroddiad er gwybodaeth. |
| **Swyddog Cyswllt:** | Vera Jones,Rheolwr Democratiaeth ac Iaith<br>Catrin Love, Pennaeth Cynorthwyol Cefnogaeth Gorfforaethol<br>Cara Williams, Swyddog hyfforddiant Aelodau |
| | |

**Beth yw'r cefndir ac ystyriaethau perthnasol?**

1. Yn y cyfnod ers Etholiad Llywodraeth Leol mis Mai 2023, mae dau brif thema wedi dod i'r amlwg yn barhaus.
    - Mae pwysau cynyddol ar Gynghorwyr ac felly'r angen i sicrhau **cefnogaeth a chynhaliaeth iechyd a lles** ar eich cyfer.
    - Yn ogystal, mae materion **diogelwch Cynghorwyr** wedi dod i'r amlwg yn sgil digwyddiadau cenedlaethol a digwyddiadau o fewn y Cyngor ac i Gynghorwyr unigol.

2. Mae cyswllt yn gallu bod rhwng y ddwy elfen hefyd - mae'r aflonyddu y mae rhai Aelodau wedi ei ddioddef yn gallu cynyddu straen. Yn ogystal, mae nifer wedi adrodd fod pwysau gwaith a straen costau byw yn cael effaith ar y gymdeithas, ac mae mwy o bobl yn gofyn i'w Cynghorydd lleol am gymorth.

3. Fodd bynnag, mae nifer hefyd yn teimlo fod cymdeithas wedi newid a'r disgwyliadau ar Gynghorwyr wedi mynd yn uwch gan fod disgwyliadau pobl yn gyffredinol wedi mynd yn uwch.

4. Trwy sgyrsiau diweddar gyda rhai Cynghorwyr mae wedi dod i'r amlwg nad yw pobl yn ymwybodol o'r gefnogaeth sydd eisoes ar gael i'ch cynorthwyo chi i edrych ar ôl eich iechyd a'ch lles. Mae hyn yn cynnwys eich iechyd corfforol a'ch iechyd meddyliol.

5. Mae tudalen ar y Mewnrwyd Aelodau 'Edrych ar ôl dy hun' yn cyfeirio at beth o'r gefnogaeth sydd ar gael.

**Iechyd Meddyliol**.

6. Un o'r gwasanaethau allweddol sydd ar gael i chi yw Gwasanaeth cwnsela Medra. Mae'r Gwasanaeth yn gyfrinachol, ac mae modd i chi gyfeirio eich hun at y gwasanaeth – mae manylion sut i wneud hynny ar y safle mewnrwyd.

7. Fodd bynnag, rydym hefyd yn ceisio annog Iechyd meddwl, ac i'r perwyl yma yn cynnig nifer fawr o sesiynau hyfforddiant yn y maes. Ddechrau mis Ionawr cynhaliwyd sesiwn dau ddiwrnod 'Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl' a derbyniwyd adborth cadarnhaol iawn. Mae sesiynau pellach wrthi'n cael eu trefnu.

**Diogelwch - hyfforddiant**

8. Fel y nodwyd, mae'r trais ac aflonyddu y mae rhai Aelodau wedi ei ddioddef yn cynyddu straen arnynt, ac mae'r cwrs Arwain yn Ddiogel wedi ei addasu er mwyn mynd i'r afael â hyn. Mae'n cynnwys trafodaeth a chamau ymarferol ynghylch diogelwch personol er mwyn eich cadw yn ddiogel a lleihau'r straen arnoch chi. Fe welwch o adroddiad arall fod y niferoedd sydd wedi bod yn cofrestru ar gyfer y digwyddiadau wedi bod yn eithaf isel, ond mae'r adborth rydym wedi eu derbyn o'r sesiynau yn hynod gadarnhaol. Mae neges pellach wedi ei gyrru i bob aelod sydd ddim eto wedi cwblhau y cwrs yn eu hannog yn gryf i fynychu. Ar gyfer yr aelodau hynny sydd wedi mynychu y cwrs beth amser yn ôl ond heb dderbyn yr elfen newydd ar ddiogelwch personol, yna mae sesiwn byr ar gael dim ond yn cynnwys yr elfen yma.

9. Yn ogystal, mae sesiynau gweminar wedi eu cynnal gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Lloegr (CLlL) yn Rhagfyr 2022 ac ym mis Chwefror 2023. Teitlau'r digwyddiadau oedd "Ymdrin ag aflonyddu a caamdriniaeth ar lein" a "Diogelwch personol Cynghorwyr". Gohebwyd gyda'r holl Gynghorwyr yn cynnig iddynt fynychu'r sesiynau rhithiol oedd am ddim. Nid oedd y ddarpariaeth wedi ei deilwra ar gyfer Cymru yn benodol, ond roedd nifer o faterion addas iawn i Gynghorwyr i gynorthwyo gyda diogelwch yn rhan o'r sesiynau.

**Diogelwch – materion ymarferol**

10. Mae'r Cyngor wedi addasu trefniadau ymarferol yn y Siambrau hefyd yn dilyn digwyddiad yng nghyfarfod Cyngor Arbennig 24/08/2022. Bu aflonyddu o'r oriel gyhoeddus yn ystod y cyfarfod. Yn dilyn y digwyddiad bu i nifer o Gynghorwyr a staff adrodd nad oeddent yn teimlo'n ddiogel yn y Siambr. Erbyn hyn cynhelir asesiad risg ar gyfer pob cyfarfod sy'n cael ei gynnal yn aml leoliad (lleoliad Siambr a mynychu o bell).

11. Yn sgil yr asesiadau risg mae rhai camau penodol wedi eu cymryd i wella diogelwch:
    - sicrhau loceri i'r cyhoedd gadw eu bagiau wrth fynd i'r oriel gyhoeddus,
    - digon o bosteri yn yr oriel gyhoedd yn nodi beth y gall aelodau'r cyhoedd ei wneud (a beth sydd ddim yn dderbyniol),
    - rhaff i wahanu'r oriel gyhoeddus o lawr y Siambr (ond mae'n rhaid caniatáu mynediad i unigolion ar gyfer pwyllgor cynllunio neu i ofyn cwestiwn yn y Cyngor llawn).
    - Trefniadau rheolaethol i alw toriad os oes aflonyddu
    - Briffio Cadeiryddion
    - Ystyried cyflogi cwmni diogelwch ble ystyrir bod lefel y risg yn uchel

12. Bydd pob asesiad risg yn ystyried y materion sydd ar yr agenda cyn dod i gasgliad os oes angen camau diogelwch pellach. Gall y camau amrywio o symud lleoliad (o Siambr Hywel Dda i Siambr Dafydd Orwig), briffio Cadeirydd y pwyllgor ar y camau i'w cymryd, sicrhau diogelwch priodol ar y safle, neu mewn achosion penodol gynnal y cyfarfod yn un rhithiol. Bydd gwaith pellach yn digwydd tros y misoedd nesaf hefyd yn edrych yn fanylach ar ddyluniad y siambr a'r mesurau diogelwch ffisegol mewn lle yno.

13. Rydym hefyd yn ymwybodol eich bod fel Cynghorwyr allan yn y gymdeithas trwy'r amser. Mae camau penodol y gellir eu hystyried ar gyfer gwarchod eich diogelwch chi a'ch teulu, megis peidio cyhoeddi eich cyfeiriad cartref ar y safle we. Mae canllawiau defnyddiol ynghylch ystyriaethau diogelwch cyn cynnal syrjeris yn y gymuned hefyd wedi eu cynnwys ar y Mewnrwyd Aelodau, sydd o gymorth i chi.

**Iechyd corfforol**

14. Un elfen ychwanegol yw eich iechyd corfforol, ac mae gwybodaeth ddefnyddiol eto ar y mewnrwyd Aelodau sy'n cynnwys tips ynghylch sut i osod eich gweithfan gartref yn gywir, a'r mynediad sydd ar gael at y gwasanaeth ffisiotherapi.

**Cyfathrebu**

15. Ymddengys nad ydym wedi bod yn cyfathrebu'r wybodaeth yma at Gynghorwyr yn ddigon clir a digon aml. Yn ddiweddar, rydym wedi rhannu gwybodaeth trwy'r Bwletin wythnosol sy'n eich cyrraedd chi fel Cynghorwyr. Cofiwch edrych ar y Mewnrwyd Aelodau am wybodaeth hefyd, neu holi swyddogion perthnasol – gwybodaeth am hyfforddiant gan Cara Williams, gwybodaeth am gynnwys y mewnrwyd Aelodau trwy'r tîm Democratiaeth a'r Cymorthyddion Grwpiau Gwleidyddol.

16. Fel cynrychiolwyr yr holl Aelodau ar y pwyllgor, gofynnir i chi hefyd rannu'r wybodaeth hyn gyda'ch cyd-aelodau i sicrhau ein bod i gyd yn cymryd cyfrifoldeb o edrych ar ôl ein hunain a'n gilydd.

**Argymhelliad**

17. Gofynnir i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth dderbyn yr adroddiad er gwybodaeth.

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd |
| **DYDDIAD** | 16 Mawrth 2023 |
| **TEITL YR ADRODDIAD** | Darpariaeth Dysgu a Datblygu i Aelodau |
| **PWRPAS** | Rhoi diweddariad o'r ddarpariaeth *Dysgu a Datblygu* i Aelodau, gan amlygu llwyddiannau, sialensiau a datblygiadau |
| **ARGYMHELLIAD** | Gwahoddir y Pwyllgor i gynnig unrhyw awgrymiadau pellach |
| **AWDUR** | Carey Cartwright (Rheolwr Dysgu a Datblygu'r Sefydliad) |

## 1 Trosolwg

1.1 Mae'n amser priodol i adlewyrchu ac adolygu trefniadau Dysgu a Datblygu, yn dilyn cyfnod prysur iawn ond cymharol sefydlog.

1.2 Ar ddechrau'r tymor etholiadol mae'r rhaglen ddysgu wedi bod yn ddwys, gyda nifer sylweddol o gyfleoedd dysgu wedi cael eu cynnig (i Aelodau newydd yn arbennig).

1.3 Erbyn hyn, rydym mewn sefyllfa i gyflwyno rhai teitlau hyfforddi yn y dull 'traddodiadol' *wyneb i wyneb* unwaith eto, ochr yn ochr gyda sesiynau 'rhithiol' ('*o bell*').

1.4 Mae'r rhaglen hyfforddiant yn esblygu a tyfu'n barhaus, ac rydym erbyn hyn yn ymgynghori gyda Phenaethiaid a Swyddogion ar gynnwys rhaglen 2023/24. Byddwn hefyd yn cynnwys teitlau ar gais Aelodau, ac yn croesawu unrhyw awgrymiadau pellach.

## 2 Rhaglen Hyfforddiant

2.1 Gwelir o raglen 2022-23 (Atodiad 1) fod amrediad o ddigwyddiadau datblygol wedi eu cynnal, gyda recordiadau (*ble'n bosib*) o'r sesiynau hyd at ddiwedd Ebrill 2023 i'w gweld ar y Fewnrwyd Aelodau. Mae rhaglen ddwys o ddigwyddiadau wedi ei chynnal, gyda ffocws ar hyfforddiant 'Craidd' ar gyfer cyflawni rôl e.e. '*Hyfforddiant i Aelodau'r Pwyllgor Cynllunio'*, a theitlau megis '*Arwain yn Ddiogel a Diogelwch Personol',* sy'n cyfarch materion iechyd a lles. Trefnwyd sesiynau ychwanegol e.e. '*Cyfryngau Cymdeithasol'* a '*Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl*' hefyd mewn ymateb i geisiadau gan Aelodau.

2.2 Dylid nodi bod yr adborth wedi bod yn ardderchog ar y cyfan, gyda sawl Aelod yn nodi bod y sesiynau yn werthfawr. Dyma esiamplau o adborth:-

*2.2.1* *<u>Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl</u>*

*"Dau ddiwrnod hynod werthfawr, yn enwedig gan ein bod yn y maes o fod yn delio â phobl yn ein cymunedau. Roedd yr Hyfforddwraig yn ffantastig ac yn rhoi gwybodaeth ar ble i fynd os ydym eisiau dysgu am rywbeth penodol. Yn gwerthfawrogi hefyd bod ein llesiant meddyliol ni fel Aelodau wedi cael ystyriaeth, a'r pwysigrwydd o gael ymennydd iach a meddwl iach."*

*"Hyfforddiant gwych, fe ddylai Holl Gynghorwyr fynd arno"*
*"Wedi mwynhau mas draw, ymarferol a chefnogol iawn."*

*2.2.2* *<u>Arwain yn Ddiogel a Diogelwch Personol</u>*
*"Fel Aelod Cabinet, mae'r sesiwn hwn wedi bod yn agoriad llygad llwyr imi, ac yn profi mor bwysig ydi ein bod yn deall beth yw'r risgiau, ble i gwestiynu, a sut i sicrhau ein bod yn gwneud penderfyniadau cywir"*

*"Wedi dysgu lot fawr am faes nad oedd gen i ddim llawer o wybodaeth na dealltwriaeth ohono. Sesiwn gwerthfawr iawn y dylai bob Cynghorydd ei gymeryd o ddifrif ac ymdrechu i fynychu".*

**3** **Cyfweliadau Datblygu Personol**

3.1 Mae anghenion datblygol unigolion yn amrywio'n sylweddol, ac mae Aelodau wedi derbyn gwahoddiad i fynychu '*Cyfweliad Datblygiad Personol'* gydag arbenigwr Dysgu a Datblygu i drafod eu hanghenion datblygol a llunio rhaglen ddatblygol bersonol. Hyd yma, mae 2 wedi dangos diddordeb.

**4** **Ystadegau Mynychu**

4.1 Yn y cyfnod ers Mai 2022, cynhaliwyd 35 o ddigwyddiadau (gan nodi bod elfennau amrywiol eraill yn ychwanegol i hyn, megis sesiynau cymhelliant). Mae niferoedd mynychu wedi bod yn amrywiol e.e., Categoreiddio Ysgolion 33, Sesiwn Cydraddoldeb gyda dim ond 5 wedi mynychu.

Efallai bod angen ystyried:-

- Adolygu geiriad y gwahoddiadau i sicrhau eglurdeb
- Pwysleisio'r budd a manteision personol o fynychu

**5** **Hyblygrwydd**

5.1 Mewn ymateb i anghenion aelodau a hwyluso cyfleoedd iddynt fynychu hyfforddiant, adolygwyd nifer o drefniadau i gynnig mwy o hyblygrwydd:-

- Cynnig sesiynau ar-lein ('o bell')
- Cynnig mwy nag un dewis o ddyddiadau
- Trefnu sesiynau ar amseroedd gwahanol (e.e. fin nos)

5.2 Ond, ymddengys nad yw cyflwyno'r addasiadau yma wedi gwneud y sesiynau yn haws i bawb fynychu, a bu'n rhaid rhedeg rhai sesiynau gyda niferoedd bychan nad oedd yn gost effeithiol e.e. '*ratio*' swyddogion i fynychwyr bron yn gyfartal. Gwelwyd tueddiad i beidio cofrestru ar y digwyddiadau cyntaf pan yn cynnig cyfres o ddyddiadau - effaith hyn oedd gorfod canslo rhai digwyddiadau yn sgil niferoedd annigonol.

**6** **Edrych i'r Dyfodol**

Er mwyn gwneud y gorau o adnoddau a chyllideb prin, bydd y Gwasanaeth Dysgu a Datblygu'r Sefydliad yn cymryd y camau canlynol:-

**6.1** **Rhaglen gyffredinol:-**

6.1.1 Parhau i roi digon o rybudd ar gyfer digwyddiadau

6.1.2 Osgoi 'gorgyffwrdd' gyda digwyddiadau sydd eisoes yn y calendr pwyllgorau

6.1.3 Parhau gyda'r ddarpariaeth dysgu 'rhithiol' ar *Teams/Zoom* (sesiynau 'byw')

6.1.4 Datblygu arlwy o fodiwlau e-ddysgu sydd ar gael unrhyw le / unrhyw adeg

6.1.5 Trefnu a hysbysebu **un digwyddiad ar y tro** gan anfon **un cais cyfarfod**

6.1.6 Trefnu a hysbysebu sesiynau pellach yn ôl yr angen, h.y., pan mae niferoedd digonol wedi datgan diddordeb (mynd ar restr aros)

6.1.7 Parhau i fod yn hyblyg o ran trefniadau os oes grŵp o Aelodau yn gwneud cais am ddigwyddiad sy'n cael ei gynnal ar amser gwahanol i'r arfer.

6.1.8 Annog Aelodau i wneud defnydd o'r Fewnrwyd i gael gwybodaeth am y cyfleoedd datblygol diweddaraf

**6.2 Teitlau Craidd**

6.2.1 Nodir manylion a disgwyliadau o ran mynychu'r teitlau yma ar y Fewnrwyd Aelodau
Darparu rhai teitlau trwy e-fodiwlau sydd ar gael unrhyw le/unrhyw adeg

**6.3 Teitlau Datblygol**

Pan mae unigolion yn gwneud cais am deitl/maes dysgu penodol iddynt hwy'n bersonol (ble nad oes nifer digonol i warantu comisiynu digwyddiad yn y Cyngor) byddwn yn:-

6.3.1 Edrych ar y posibilrwydd o drefnu i'r unigolyn fynychu sesiwn allanol (agored)

6.3.2 Creu rhestr aros a threfnu digwyddiad pan mae niferoedd digonol i gyfiawnhau hynny

**6.4 Rhedeg neu ganslo digwyddiadau**

Os yw'r niferoedd sy'n gwneud cais i fynychu sesiwn yn isel, byddwn yn:-

6.4.1 Anfon neges atgoffa gyda dyddiad ymateb pendant

6.4.2 Cymryd penderfyniad 'busnes' o ran canslo/gohirio digwyddiad ar sail:-

- Dim ond rhedeg digwyddiadau ble mae niferoedd yn cyfiawnhau hynny
- Risg i unigolion / Y Cyngor
- Gwerth am arian wrth gomisiynu cwmnïau allanol
- Defnydd gorau o amser swyddogion

***Gwahoddir y Pwyllgor i ystyried y trefniadau hyfforddiant a chamau a gynigir a'u cymeradwyo.***

# RHAGLEN DATBLYGU AELODAU ETHOLEDIG

# ELECTED MEMBERS' DEVELOPMENT PROGRAMME

| Dyddiad ac amser / *Date and time* | | Digwyddiad / *Event* | Dull Dysgu / Learning Method | Arweinwyr / *Leaders* |
|---|---|---|---|---|
| **Mai 10 + 11 May** | **(Trwy dydd/all day)** | **Diwrnod Croeso / Welcome Day** | **Siambrau & Zoom**<br>**Hybrid** | **Amrywiol / Various** |
| **Mai 30 May** | **(10:00 – 11:00)** | **Cyflwyniad i Gynllunio / Introduction to Planning (Holl Aelodau / All Members)** | **Rhithiol / virtual** | **Gareth Jones/Keira Sweeney/Rebeca Jones** |
| **Mehefin 6 June** | **(2:00 – 3:00)** | **Hyfforddiant i Aelodau'r Pwyllgor Cynllunio / Planning Commitee Members Training** | **Rhithiol / Virtual** | **Gareth Jones/Keira Sweeney/Rebeca Jones** |
| **Mehefin 8 June** | **(10:00 – 11:00)** | **Gwybodaeth am Bobl : Eich Cyfrifoldeb Chi / Information about People : Your Responsibility** | **Rhithiol / Virtual** | **Helen Mary Parry (Rheolwr Gwybodaeth / Information Manager)** |
| **Mehefin 9 June** | **(10:00 – 12:30)** | **Y Cod Ymddygiad / The Code of Conduct** | **Rhithiol  Virtual** | **Iwan Evans** |
| Mehefin 22 June | (10:00 – 11:00<br>(14:00 – 15:00) | Cyflwyniad i Opsiynau Tai Gwynedd / Introduction to Gwynedd Housing Options | Rhithiol / virtual | Swyddogion Amrywiol (Tai ac Eiddo) |
| Mehefin 29 June | (10:00 – 12:30) | Hyfforddiant i Aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio / Training for the Governance & Audit Committee Members | Rhithiol / Virtual | Dewi Morgan / Luned Fon Jones |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Mehefin 30 June (10:00 – 11:00)<br><br>(16:00 – 17:00) | Cyflwyniad i Ddigartrefedd / Introduction to Homelesness | Rhithiol / virtual | Swyddogion Amrywiol (Tai ac Eiddo) |
| **Gorffennaf 6 July (10:15 – 11:15)** | **Cyflwyniad i Graffu : Gweithdy Pwyllgor Craffu Cymunedau / Introduction to Scrutiny : Communities Scrutiny Committee Workshop** | **Siambr Hywel Dda & Zoom**<br><br>**Hybrid** | **Bethan Adams** |
| **Gorffennaf 7 July (10:15 – 11:15)** | **Cyflwyniad i Graffu : Gweithdy Pwyllgor Craffu Gofal / Introduction to Scrutiny : Care Scrutiny Committee Workshop** | **Siambr Hywel Dda & Zoom**<br><br>**Hybrid** | **Llywela Owain** |
| **Gorffennaf 13 July (10:00 – 12:30)** | **Eich Cyfrifoldeb dros Gydraddoldeb / Your Responsibility for Equality** | **Rhithiol / Virtal** | **Delyth Gadlys Williams** |
| **Gorffennaf 14 July (10:15 – 11:15)** | **Cyflwyniad i Graffu : Gweithdy Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi / Introduction to Scrutiny : Education & Economy Scrutiny Committee Workshop** | **Siambr Hywel Dda & Zoom**<br><br>**Hybrid** | **Vera Jones** |
| Gorffennaf 25 July (4:00 – 5:00) | Gofal Cartref – Diweddariad ar y model Newydd<br>Home Care – Update on the new model | Rhithiol / Virtual | Meilys Haulfryn Smith, Sian Wyn Griffiths |
| **Gorffennaf 25 July (1:30 – 3:00)** | **Rôl y Fforwm Craffu a rôl craffu yn y trefniadau perfformiad o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 / The Scrutiny Forum's role and the role of scrutiny in the performance arrangements under the Local Government and Elections (Wales) Act 2021.** | **Rhithiol / Virtual** | **Bethan Adams, Dewi Wyn Jones** |
| **Medi 8 September (2:00 – 3:30)** | **Arwain yn Ddiogel a Diogelwch Personol / Safe Leadership & Personal Safety (Sesiwn dwyieithog / bilingual session)** | **Rhithiol / Virtual** | Catrin Love (Ymgynghorydd Iechyd Diogelwch a Lles / Health, Safety & Wellbeing Consultant) |
| Medi 9 September (10:00 – 11:00) | Cadeirio Pwyllgorau Craffu – Agweddau Cyfreithiol / Chairing Scrutiny Committees – Legal Aspects) | Rhithiol / Virtual | Sion Huws |
| **Medi 14 September (2:00 – 4:30)** | **Eich Cyfrifoldeb dros Gydraddoldeb / Your Responsibility for Equality** | **Rhithiol / Virtual** | Delyth Gadlys Williams |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Medi 21 September (10:00 – 12:30)** | **Y Cod Ymddygiad / The Code of Conduct** | **Rhithiol / Virtual** | Iwan Evans (Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol / Head of Legal Service) |
| **Medi 28 September (2:00 – 3:00)** | **Gwybodaeth am Bobl : Eich Cyfrifoldeb Chi / Information about People : Your Responsibility** | **Rhithiol / Virtual** | **Helen Mary Parry** |
| **Medi 29 September (2:00 – 3:30)** | **Arwain yn Ddiogel a Diogelwch Personol / Safe Leadership & Personal Safety (Sesiwn Cymraeg / Welsh medium session)** | **Rhithiol / Virtual** | **Catrin Love** |
| Hydref 5 October (1:30 – 3:30) | Categoreiddio Ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg / Categorising Schools according to the Welsh language provision | Rhithiol / Virtual | Debbie Williams-Jones |
| Hydref 10 October (2:00 – 3:30)<br>Hydref 12 October (10:00 – 11:30) | Polisi Cynllunio a'r Cynllun Datblygu Lleol / Planning Policy & the Local Development Plan | Rhithiol / Virtual | Gareth Jones a Rebeca Angharad Jones |
| **Hydref 12 October (2:00 – 3:00)**<br>**Hydref 27 October (10:00 – 11:00** | **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol / Future Generations Wellbeing Act** | **Rhithiol / Virtual** | **Dewi Wyn Jones a Sandra Thomas** |
| Hydref 19 October (2:00 – 3:30) | Ffordd Gwynedd | Rhithiol / Virtual | Dafydd Gibbard (Prif Weithredwr/Chief Executive) |
| **Tachwedd 9 November (10:00 – 11:00)**<br>**Tachwedd 16 November (2:00 – 3:00)** | **Diogelu Plant ac Oedolion / Safeguarding Children & Adults** | **Rhithiol / Virtual** | **Dafydd Paul / Mannon Trappe** |
| Tachwedd 11 November (10:00 – 11:30) | Ffordd Gwynedd | Rhithiol / Virtual | Geraint Owen a Carey Cartwright |
| Tachwedd 11 November (1:00 – 2:30) | Hyfforddiant i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio – Y Broses Gwynion \| The Complaints Procesure – Training for the Governance & Audit Committee | Rhithiol / Virtual | Matthew Harris (Ombudsman) |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Tachwedd 22 November (1:30 – 4:30) | Amrywiaeth mewn Democratiaeth i Ferched/ Diversity in Democracy for Women | Rhithiol / Virtual | Dr Jessica Laimann<br>Swyddog Polisi a Materion Cyhoeddus<br>Women's Equality Network (WEN) Wales / Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod (RhCM) Cymru |
| **Tachwedd 25 November (2:00 – 3:00)** | **Gwybodaeth am Bobl : Eich Cyfrifoldeb Chi / Information about People : Your Responsibility** | **Rhithiol / Virtual** | **Helen Mary Parry** |
| I'w gadarnhau / To be confirmed<br>~~Rhagfyr 6 December (1:30 – 3:00)~~<br>Rhagfyr 15 December (10:00 – 11:30) | Cyfryngau Cymdeithasol – Rheoli eich enw da ar-lein<br>Social Media – Managing your reputation online | Rhithiol / Virtual | Equinox |
| Rhagfyr 14 December (10:00 – 11:30)<br>Rhagfyr15 December (3:30 – 5:00) | Safle Treftadaeth y Byd / World Heritage Sites | Rhithiol / Virtual | Rebeca Angharad Jones / Roland Evans |
| **Ionawr 11 January 2023 (10:00 – 11:30)** | **Anwytho Llywodraethwyr Newydd / New Governors Induction** | **Rhithiol / Virtual** | **Buddug Mair Huws** |
| Ionawr 12 a 13 January 2023 (9:30 – 4:30) | Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl / Mental Health First Aid | Wyneb i Wyneb / Face to face<br>(Caernarfon) | Bethan Roberts |
| Ionawr 18 January (10:00 – 11:30) | Cyfryngau Cymdeithasol (Ail ran – Sut i greu cynnwys da)<br>Social Media (Second Part – How to create good content) | Rhithiol / Virtual | Equinox |
| **Ionawr 25 January (5:30 – 7:30)** | **Eich Cyfrifoldeb dros Gydraddoldeb / Your Responsibility for Equality** | **Rhithiol / Virtual** | **Delyth Gadlys Williams** |
| Chwefror 1 February (9:00 – 3:30) | Hyfforddiant Cyfryngau a Chyflwyno \| Media & Presenting Training<br>'Refresher' i Aelodau Cabinet \| 'Refresher' for Cabinet Members | Wyneb i Wyneb<br>(Caernarfon) | Sgript |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Chwefror 8 February 2023 (10:00 – 11:00) | Trefniadau Cwynion Ysgol – y gwahanol fathau o gwynion, pa Bolisi sy'n berthnasol a sut mae delio â nhw / School Complaints Procedures – the different types of complaints, what Policies are appropriate and how to deal with them. | Rhithiol / Virtual | Buddug Mair Huws |
| Chwefror 8 February 2023 (3:30 – 5:00) | Trosolwg ar ymarfer da o Wella Gwasanaeth o Gwynion \| Overview of Service Improvements learning through Complaints | Rhithiol / virtual | Matthew Harris (Ombudsman) |
| **Chwefror 15 February (1:00 – 3:00)** | **Ein dyletswyddau ni fel Rhieni Corfforaethol / Our duties as Corporate Parents** | Rhithiol / virtual | **Marian Parry Hughes, Aled Gibbard, Elenid Glyn, Ffion Elis Edwards** |
| **Mawrth 8 March (2:00 – 3:00)** | **Gwybodaeth am Bobl : Eich Cyfrifoldeb Chi / Information about People : Your Responsibility** | Rhithiol / virtual | **Helen Mary Parry** |
| Mawrth 16 March 2023 (10:00 – 1:00) | Arwain Cymunedau trwy Newid / Leading Communitires through Change | Wyneb i wyneb<br>Penrhyndeudraeth | Carey Cartwrigh, Ffion Bryn Jones |
| Ebrill 19 April (2:00 – 3:30) | Ffordd Gwynedd (Sesiwn pellach i'r rhai sydd wedi methu mynychu'n barod / Further session for those who've been unable to attend previously) | Rhithiol / virtual | Geraint Owen a Carey Cartwright |
| Ebrill 20 April (4:00 – 5:00) | Gwybodaeth am grantiau Cist Gwynedd / Information about Cist Gwynedd grants | Rhithiol / virtual | Rhian George (Economi a Chymuned / Economy & Community) |
| **Ebrill 27 April (11:00 – 12:30)**<br>**(2:30 – 3:30)** | **Arwain yn Ddiogel a Diogelwch Personol / Safe Leadership & Personal Safety (Sesiwn i'r bawb sydd wedi methu'r rhai blaenorol / a session for those who have been unable to attend previously)**<br>**Diogelwch Personol / Personal Safety (yr elfen newydd i'w cwrs sydd heb gael ei gyflwyno i'r rhai sydd eisoes wedi mynychu / The new 'bolt on' to the course and for those who have not had this element)** | **Rhithiol / virtual**<br>**Rhithiol / virtual** | **Catrin Love**<br>**Catrin Love** |

**Ysgrifen dywyll – Digwyddiadau “Craidd” / Bold font – ‘Core’ events**

Ysgrifen cyffredinol – Digwyddiadau “Dewisiol”  - General font – ‘Optional’ events

| Dyddiad y cyfarfod : | **16 Mawrth 2023** |
|---|---|
| **Pwnc** | **Cefnogaeth i Gynghorwyr – Perfformiad y Tîm Gwasanaethau Democratiaeth** |
| **Argymhelliad** | **Gofynnir i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth nodi'r sylwadau a derbyn yr adroddiad.** |
| **Swyddog Cyswllt:** | **Vera Jones (Rheolwr Gwasanaethau Democratiaeth ac Iaith) a Sioned Mai Jones (Arweinydd Tîm Democratiaeth dros dro)** |

**Beth yw'r cefndir ac ystyriaethau perthnasol?**

1. Mae'r Tîm Democratiaeth yn gweithio yn galed er mwyn sicrhau cefnogaeth lawn i Gynghorwyr. Er mwyn sicrhau'r gefnogaeth briodol rydym yn holi eich barn yn gyson. Rydym yn casglu barn trwy Holiadur Bodlonrwydd ddwywaith y flwyddyn. Yn ogystal, byddwn yn siarad gyda dau neu dri Cynghorydd yn fisol er mwyn cael sgyrsiau dyfnach ynghylch y gefnogaeth a beth ellir ei wneud i gynorthwyo Cynghorwyr yn eu rôl.

2. Adroddwyd ar ganlyniad yr Holiadur Bodlonrwydd diwethaf yng nghyfarfod mis Tachwedd 2022 o'r Pwyllgor hwn. Byddwn yn trefnu i anfon holiadur pellach atoch yn ystod y gwanwyn fel ein bod yn derbyn adborth cyson ac yn gallu adlewyrchu'n barhaus ar y gwasanaeth a ddarperir.

3. Yn y cyfamser rydym wedi ail afael yn ein trefniadau o gynnal sgyrsiau gyda Chynghorwyr unigol. Mae'r sgyrsiau hyn yn ein galluogi i holi Cynghorwyr mewn mwy o fanylder a chael gwell dealltwriaeth o unrhyw faterion sy'n creu pryder. Isod, amlinellir rhai o'r themâu a'r materion sydd wedi eu hamlygu. Noder fod rhai sylwadau yn gorfod bod yn amwys fel bod y sgyrsiau yn anhysbys.

4. Roedd mwyafrif y sgyrsiau yn cadarnhau gwaith caled y tîm Democratiaeth a pharodrwydd staff y tîm i geisio helpu gydag unrhyw faterion yn syth. Roedd materion penodol i'w canmol fel a ganlyn:

5. **Trefniadau pob pwyllgor**, gan gynnwys y gefnogaeth a roddir i **Gadeiryddion** Pwyllgorau yn y cefndir – o nodyn neu sesiwn briffio hefo swyddogion sydd â chyfrifoldeb am y pwyllgor i'r materion ymarferol gan y tîm Democratiaeth.

6. **Rhaglen cyflwyno gwybodaeth a sesiynau hyfforddiant arbennig o dda** wedi ei gynnal dros y flwyddyn a fu.

7. Canmoliaeth gyffredinol am drefniadau'r **system hybrid** a gallu Cyngor Gwynedd i gynnal cyfarfodydd aml leoliad yn ddwyieithog a'u gwe-

ddarlledu. Mae lle gan Gyngor Gwynedd i fod yn falch o'r hyn maent wedi llwyddo i'w wneud o gymharu â nifer o awdurdodau a chyrff cyhoeddus eraill. Dan yr un ganmoliaeth nodwyd y rhwystredigaeth gyda'r sain yn Siambr Hywel Dda, a nodir fod gwaith i geisio cael gwell datrysiad yn digwydd. Anogir Aelodau sy'n ymuno'n rhithiol mewn cyfarfodydd hybrid i wisgo clustffonau gyda meicroffon yn gysylltiedig er mwyn ei gwneud hi'n haws i'r sawl sydd yn y Siambr eu clywed.

8. Safon y **cofnodion** yn arbennig o dda ac yn llwyddo i daro'r balans cywir mewn Pwyllgorau.

9. Cynigiwyd rhai sylwadau am lefydd i'w gwella hefyd, fel a ganlyn:

10. **Gwybodaeth am gyflogau, costau a sut i gael gafael ar P60 ar ddiwedd y flwyddyn**.
    - Amlygwyd nad oedd pawb yn glir lle roedd y wybodaeth ynghylch cyflogau Aelodau, beth oedd y cyflog sylfaenol, lle mae'r slipiau cyflog a sut i gael gafael ar P60.
    - Amlygwyd hefyd fod cost uwch i Gynghorydd mewn ward gwledig i deithio i weld unigolion yn y ward ayyb.

    - *Bwriedir rhoi darn yn y bwletin i aelodau yn nodi'r wybodaeth sydd wedi ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth heddiw ynghylch cyflogau Cynghorwyr. Bydd y cynorthwywyr grwpiau gwleidyddol wedi eu briffio ac yn gallu cyfarwyddo unrhyw Gynghorydd sydd eisiau gweld ei P60 sut i wneud hynny.*
    - *Rydym eisoes wedi tynnu sylw'r Panel Annibynnol ar gyfer cydnabyddiaeth ariannol i'r gost anghymharol o fod mewn ward gwledig o gymharu â ward drefol. Maent yn bwriadu ymweld â chynghorau sir y flwyddyn nesaf (23/24), gellir codi'r mater bryd hynny eto.*

11. **Gofod mewn swyddfeydd ar gyfer defnydd Cynghorwyr.**
    - Gwnaethpwyd cais ar gyfer defnyddio lleoliadau o fewn y Cyngor ar gyfer gweithio ac/neu gynnal syrjeris gan Gynghorwyr.

    - *Cartref yw lleoliad gwaith pob Cynghorydd, gyda chroeso iddynt fynychu cyfarfodydd yn y siambrau pan eu bod yn cael eu cynnal yn aml leoliad, neu fynychu cyfarfod gyda swyddog penodol trwy drefniant rhag blaen os oes angen, Mae anogaeth barhaus i ystyried y modd gorau o gyfarfodydd gan gofio ein bod fel Cyngor wedi datgan argyfwng hinsawdd.*

      *Gofod gwaith i swyddogion yn unig sydd yn adeiladau'r Cyngor (namyn aelodau'r Cabinet) ac nid oes gofod digonol i alluogi lleoliad gwaith neu ofod i Gynghorwyr gynnal syrjeris yn swyddfeydd y Cyngor. Gofynnir i'r holl Aelodau barchu hyn. Mae trefniadau penodol wedi eu gwneud mewn achlysuron arbennig i gynorthwyo Cynghorwyr unigol pan oedd*

*toriad trydan neu ddiffyg cyswllt y we, ond hynny drwy drefniant penodol rhag blaen.*

12. **Gwybodaeth am bresenoldeb ar Modern.gov**.
    - Rydym wedi derbyn ymholiad pam fod y system yn dewis cyfnod penodol wrth ddangos presenoldeb Cynghorwyr mewn Pwyllgorau. Yn ogystal, mae Aelod wedi nodi dymuniad i allu esbonio bod Corff arall wedi trefnu cyfarfod ar yr un amser oedd yn golygu bod yn rhaid ymddiheuro o gyfarfod gyda'r Cyngor.

    - *Mae modd i unrhyw unigolyn sy'n edrych ar yr ystadegau newid cyfnod yr edrychir arno, ac rydym wedi gwneud ymholiadau i weld os oes modd ymestyn y cyfnod o 6 mis sy'n cael ei ddangos yn awtomatig. Yn ogystal, nid oes modd nodi rheswm pam fod unigolyn yn ymddiheuro, ac yn draddodiadol defnyddiwyd yr adroddiadau blynyddol gan Gynghorwyr i gynnig yr esboniad.*

13. **Opsiynau am hyfforddiant pellach.**
    - Nodwyd fod yr hyfforddiant ar sut i graffu wedi bod yn ddefnyddiol iawn ar ddechrau'r broses, ond efallai ei bod yn amserol i sicrhau 'cwrs atgoffa' rŵan gan fod pawb wedi dechrau deall y rôl yn well. Yn ogystal, nodwyd canmoliaeth i'r hyfforddiant penodol i Gadeiryddion Craffu a gafodd ei gynnal.
    - Nodwyd hefyd fod swmp a sylwedd yr holl adroddiadau sydd angen eu darllen a'u deall er mwyn gallu gwneud penderfyniadau cywir arnynt yn gallu bod yn hynod heriol. Gofynnwyd a oedd modd symleiddio'r adroddiadau neu gynnal rhyw fath o hyfforddiant penodol ar sut i ddarllen adroddiadau yn fwy effeithiol a chynt.

    - *Byddwn yn gweithio gyda'r gwasanaeth Dysgu a Datblygu i geisio trefnu'r uchod. Noder fod modd i Gynghorwyr drefnu sesiwn 1-1 gyda'r tîm Dysgu a Datblygu er mwyn adnabod anghenion hyfforddiant fel hyn - mae'n siŵr y bydd yn canu cloch gyda nifer ohonoch. Nodwn hefyd bod gwybodaeth fanwl ar y Mewnrwyd Aelodau am hyfforddiant.*

14. **Diogelwch Cynghorwyr a chefnogaeth i Gynghorwyr**.
    - Mae aelodau unigol wedi adrodd eu bod yn cymryd camau penodol o ran sicrhau eu diogelwch personol tra allan yn y gymdeithas.
    - Cafwyd sylwadau hefyd ynghylch cefnogi Cynghorwyr yn emosiynol, a'r angen i gynnig sesiynau wyneb i wyneb i sicrhau nad yw Cynghorwyr yn mynd yn unig ac isel.
    - Derbyniwyd sylw am y pwysigrwydd o sicrhau toriadau amserol mewn Pwyllgorau.

- *Rydym yn parhau i roi sylw i ddiogelwch Cynghorwyr yn barhaus ac mae adroddiad penodol i'r Pwyllgor heddiw yn amlinellu'r gefnogaeth gyffredinol i Gynghorwyr.*
- *Mae'r polisi ar gyfer cynnal cyfarfodydd hybrid yn parhau i sefyll ar hyn o bryd. Wrth ei adolygu bydd yn ofynnol ystyried arbedion (costau teithio Cynghorwyr) a chapasiti y tîm Democratiaeth, yn arbennig yn sgil heriau recriwtio cyfredol.*
- *Bydd Swyddogion yn parhau i atgoffa Cadeiryddion i sicrhau egwyl amserol mewn Pwyllgorau yn ôl yr angen.*

15. **Camau pellach**
    - Bwriada'r tîm Democratiaeth gynnal sgyrsiau efo Gwasanaethau Democratiaeth Cynghorau eraill er mwyn dod i adnabod arferion da a darganfod syniadau am ffyrdd gwahanol o weithredu a all arwain at gyfleodd i wella. Rydym eisoes wedi cael trafodaeth fuddiol efo un Cyngor arall ac wedi rhannu arferion da. Credwn ei fod yn ffordd o sicrhau gwerthuso parhaus.

**Argymhelliad**

16. **Gofynnir i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth nodi'r sylwadau a derbyn yr adroddiad.**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod** : | 16 Mawrth 2023 |
| **Pwnc** | Adroddiad Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol |
| **Argymhelliad** | Gofynnir i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth am argymhelliad ar gyfer uwch Gyflogau 2023/24 er mwyn ei gyflwyno i'r Cyngor Llawn ar 4ydd o Fai, 2023. |
| **Swyddog Cyswllt:** | Vera Jones, Rheolwr Gwasanaeth Democratiaeth ac Iaith |

**Beth yw'r cefndir ac ystyriaethau perthnasol?**

1. Adroddwyd i gyfarfod y pwyllgor hwn ar 17 Tachwedd 2022 yn amlinellu cynnwys adroddiad drafft y Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol. Yn ogystal, adroddwyd ar y bwriad i adolygu yr uwch Gyflogau sy'n cael eu talu yng Nghyngor Gwynedd. Adroddir ymhellach ar y ddwy elfen isod.

**a) Prif Benderfyniadau'r Panel**

2. Mae copi llawn o'r adroddiad ar gael ar y ddolen isod.

   Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol: adroddiad blynyddol 2023 i 2024 [HTML] | LLYW.CYMRU

   Tâl ar gyfer Aelodau etholedig.

3. Fel sy'n cael ei adrodd yn flynyddol, Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol sydd yn gosod y lefelau cyflog yn annibynnol ar gyfer holl Gynghorwyr Cymru.

4. Y cyflog sylfaenol fydd **£17,600**.

5. Mae'r cyflog sylfaenol, sy'n cael ei dalu i bob aelod etholedig, yn dâl am y cyfrifoldeb o gynrychioli'r gymuned a chymryd rhan yn y gwaith craffu, rheoleiddio a swyddogaethau cysylltiedig llywodraethu lleol. Mae'n seiliedig ar swm sydd gyfwerth â thri diwrnod llawn yr wythnos. Bydd hyn yn cael ei adolygu gan y Panel yn ystod y flwyddyn nesaf.

6. Os yw Aelod Etholedig yn penderfynu peidio derbyn y cyflog, mae'n angenrheidiol iddo/iddi ddatgan hynny yn ysgrifenedig i'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd. Mae'r arweiniad wedi ei nodi ym mharagraff 3.21 o adroddiad 2022/23 ac yn parhau yn berthnasol i'r flwyddyn hon:

   *"Rhaid talu'r cyflog a'r costau sydd wedi'u pennu yn llawn i bob aelod, oni bai bod unigolyn wedi rhoi gwybod yn ysgrifenedig i swyddog priodol yr awdurdod ei fod wedi dewis yn annibynnol ac yn wirfoddol ei fod am ildio'r holl daliad neu unrhyw elfen ohono. Mae'n hanfodol bod tryloywder yn y broses hon fel*

*bod unrhyw awgrym posibl bod aelodau'n cael eu rhoi dan bwysau i fynd heb rywfaint o'r cyflogau'n cael ei osgoi."*

<u>Uwch Gyflogau ar gyfer Aelodau etholedig.</u>

7. Er i'r ffiniau newid mewn rhai awdurdodau a'r niferoedd Cynghorwyr hefyd newid yn sgil hynny, mae'r Panel wedi penderfynu peidio newid y niferoedd o uwch Gyflogau y gellir eu pennu yn yr awdurdodau unigol.  18 yw'r uchafswm o uwch gyflogau y gellir eu talu i awdurdodau Grwp B, sy'n cynnwys Cyngor Gwynedd.

8. Mae'r tabl isod yn dangos manylion taliadau Grwp B ar gyfer 2023-24.

| | Tâl Cydnabyddiaeth |
|---|---|
| Cyflog sylfaenol (yn daladwy i bob aelod etholedig) | £17,600 |
| Band 1: arweinydd | £59,400 |
| Band 1: dirprwy arweinydd | £41,580 |
| Band 2: aelodau gweithredol | £35,640 |
| Band 3: cadeiryddion pwyllgorau (os ydynt yn cael tâl cydnabyddiaeth) | £26,400 |
| Band 4: arweinydd grŵp yr wrthblaid fwyaf | £26,400 |
| Band 5: arweinwyr grwpiau gwleidyddol eraill | £21,340 |

9. Nid yw swyddi'r pennaeth dinesig a'r dirprwy bennaeth dinesig wedi'u cynnwys yn y cap.  Mae penaethiaid dinesig yn uwch-swyddi mewn cynghorau sy'n wahanol i arweinyddiaeth wleidyddol neu weithredol. Yn ogystal â chadeirio cyfarfodydd pwysig, y pennaeth dinesig yw 'dinesydd cyntaf' a 'llysgennad' yr awdurdod, gan gynrychioli'r cyngor wrth ymwneud â phob math o sefydliadau a chyrff.

10. Penderfyniad i'r Cyngor yw talu'r gydnabyddiaeth am y rolau hyn.  Mae'r lefel wedi ei osod ar gyfer 2023/24 fel a ganlyn:

Pennaeth Dinesig £26,400
Dirprwy Bennaeth Dinesig £21,340

<u>Costau eraill</u>

11. Nid oes unrhyw newidiadau pellach i'r taliadau a'r buddiannau a dalwyd i aelodau etholedig ac felly mae pob Penderfyniad arall o 2022 i 2023 yn dal i sefyll a dylid eu cymhwyso yn 2023 i 24, gan gynnwys y rhai sy'n cwmpasu:

- teithio a chynhaliaeth
- gofal a chynhorthwy personol
- absenoldeb salwch
- cyd-bwyllgorau corfforaethol
- cynorthwywyr i'r weithrediaeth
- cyflogau ychwanegol a threfniadau rhannu swyddi
- Aelodau cyfetholedig

Adolygu Cyfrifoldebau Cadeiryddion Pwyllgorau

12. Gofynnwyd i'r pwyllgor hwn adolygu yr uwch Gyflogau sy'n cael eu talu ar gyfer 2023/24. Roedd hynny yn sgil y newidiadau gyda phenodi Aelod Lleyg yn Gadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, gyda 17 o'r 18 uwch gyflog wedi eu neilltuo ar gyfer 2022/23.

13. Y ffordd mwyaf synhwyrol o adolygu cyfrifoldebau Cadeiryddion Pwyllgorau yw ceisio asesu y pwysau gwaith sy'n dod yn sgil y rôl benodol. Gwnaethpwyd hynny drwy holi'r swyddogion sydd â chyfrifoldeb am brif bwyllgorau'r Cyngor i amlinellu cyfrifoldebau/gofynion ar y Cadeiryddion ac ymgynghori gyda'r Cadeiryddion. Mae canlyniad y gwaith i'w weld yn **Atodiad A**.

14. Yn sgil y wybodaeth sydd wedi ei gynnwys ynghylch pwysau gwaith, argymhellir mabwysiadwyd y rhestr isod o uwch-gyflogau ar gyfer 2023/24.

- Arweinydd
- Dirprwy Arweinydd
- Hyd at 8 aelod arall o'r Cabinet
- Arweinydd yr Wrthblaid fwyaf *
- Cadeiryddion Pwyllgorau:
    - Pwyllgorau Craffu (x3)
    - Pwyllgor Cynllunio
    - Pwyllgor Trwyddedu (mae'r pwyllgor Trwyddedu Canolog a Chyffredinol yn cael ei drin fel un pwyllgor)
    - Pwyllgor Pensiynau

- Pennaeth dinesig (Cadeirydd y Cyngor)
- Dirprwy Bennaeth dinesig (Is-gadeirydd y Cyngor)

* (mae hyn yn ofyn penodol gan y Panel – nid yw'n ddewisiol)

**15.** Noder fod gofynion y Panel yn nodi dyletswydd ar y Cyngor i dalu cydnabyddiaeth Ariannol i Gadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn unol â thelerau y Panel.

**Argymhelliad**

16. Gofynnir i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth argymell y rhestr uwch gyflogau ar gyfer 2023/24 ac i'r dyfodol (fel y'i gwelir yn para 14) i'r Cyngor llawn

**ATODIAD A**

<ins>CYFRIFOLDEBAU CADEIRYDDION PWYLLGORAU 2022/23</ins>

| PWYLLGOR | CYFARFODYDD - rhaglenwyd | CYFARFODYDD - Cynhlaiwyd | CYFRIFOLDEBAU YCHWANEGOL |
|---|---|---|---|
| Pwyllgor Craffu Addysg Ac Economi | 5 | 5<br>(1 ohonynt wedi arwain at 'weithdy blynyddol craffu') | • Fforwm Craffu x 3<br>• Cyfarfodydd gyda Pennaeth/Aelod Cabinet (**4 Pennaeth** i gyd. Nifer cyfarfodydd yn amrywio rhwng 1 i 4 gwaith y flwyddyn yn ddibynnol ar y maes.)<br>• Cyfarfodydd Cabinet/ Craffu (1 waith y flwyddyn)<br>• Briffio Cadeirydd / swyddog - isafswm o 5 gwaith (wedi bod yn uwch eleni)<br>• Gweithdy craffu blynyddol (1/2 diwrnod)<br>• 3 sesiwn gweithdy arbedion eleni<br>• Sesiynau briffio penodol ar feysydd penodol - 2 wedi bod hyd yma eleni.<br>• 2 sesiwn hyfforddiant penodol – Cadeirydd wedi mynychu ar ran y pwyllgor<br>• Pwynt cyswllt Cynghorwyr i godi materion<br>• Rôl newydd gyda'r Cynllun Deisebau |
| Pwyllgor Craffu Cymunedau | 5 | 5<br>(1 ohonynt wedi arwain at 'weithdy blynyddol craffu') | • Fforwm Craffu x 3<br>• Cyfarfodydd gyda Pennaeth/Aelod Cabinet (**2 Bennaeth** i gyd. Nifer cyfarfodydd oddeutu 2 waith y flwyddyn,)<br>• Cyfarfodydd Cabinet/ Craffu (1 waith y flwyddyn)<br>• Briffio Cadeirydd / swyddog - isafswm o 5 gwaith<br>• Gweithdy craffu blynyddol (1/2 diwrnod) |

| **PWYLLGOR** | **CYFARFODYDD - rhaglenwyd** | **CYFARFODYDD - Cynhlaiwyd** | **CYFRIFOLDEBAU YCHWANEGOL** |
|---|---|---|---|
| | | | • 3 sesiwn gweithdy arbedion eleni<br>• Sesiynau briffio penodol ar feysydd penodol – 1 wedi ei gynnal eleni.<br>• Pwynt cyswllt Cynghorwyr i godi materion<br>• Rôl newydd gyda'r Cynllun Deisebau |
| Pwyllgor Craffu Gofal | 5 | 5<br>(1 ohonynt wedi arwain at 'weithdy blynyddol craffu') | • Fforwm Craffu x 3<br>• Cyfarfodydd gyda Pennaeth/Aelod Cabinet (**3** Pennaeth i gyd. Nifer cyfarfodydd oddeutu 3 gwaith y flwyddyn,)<br>• Cyfarfodydd Cabinet/ Craffu (1 waith y flwyddyn)<br>• Briffio Cadeirydd / swyddog - isafswm o 5 gwaith<br>• Gweithdy craffu blynyddol (1/2 diwrnod)<br>• 3 sesiwn gweithdy arbedion eleni<br>• Sesiynau briffio penodol ar feysydd penodol – Cadeirydd yn cwrdd a'r cyfarwyddwr statudol 2 waith y flwyddyn.<br>• Pwynt cyswllt Cynghorwyr i godi materion<br>• Rôl newydd gyda'r Cynllun Deisebau |
| Pwyllgor Trwyddedu Canolog/Cyffredinol | 4 cyfarfod Pwyllgor Trwyddedu Canolog a 4 Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol | 13 | Cynhaliwyd **13 o Is Bwyllgorau Trwyddedu Cyffredinol** - lle mae angen gwrandawiad i gesiadau am drwyddedau gyrrwyr tacsi. Mae hyn yn digwydd lle nad oes hawl i wrthod trwydded gyrru tacsi wedi ei ddirprwyo i'r swyddogion drwy'r Pennaeth . Mae'r cadeirydd a dau aelod o'r prif bwyllgor trwyddedu yn eistedd ar yr Is Bwyllgor. Cadeirydd a'r aelodau yn cael eu briffio cyn /yn ystod pob cyfarfod. |

| PWYLLGOR | CYFARFODYDD - rhaglenwyd | CYFARFODYDD - Cynhlaiwyd | CYFRIFOLDEBAU YCHWANEGOL |
|---|---|---|---|
| | | | Cynhaliwyd **7 o Is Bwyllgorau Trwyddedu Canolog** ar gyfer penderfynnu ar gesiadau am drwydded eiddo alcohol , lle mae gwrthwynebiadau i gais wedi ei dderbyn . |
| Pwyllgor Cynllunio | 12 | 12 | Mae cyfarfodydd briffio Cadeirydd sef 12 ohonynt, cyn pob un o gyfarfodydd y Pwyllgor Cynllunio. Cynhelir hyd ar 6 y flwyddyn o ymweliadau safleoedd ar gyfer rhai o geisiadau'r Pwyllgor (hyn ar ben y 12 Pwyllgor Cynllunio), gyda'r ymweliadau safle hefyd yn cael eu cadeirio gan Gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio. Cadeirir unrhyw sesiwn codi ymwybyddiaeth / hyfforddiant i'r Pwyllgor Cynllunio gan Gadeirydd y Pwyllgor (hyd at 2 y flwyddyn).<br><br>Cyn y cyfnod Cofid - roedd cyfarfodydd blynyddol rhwng Prif Swyddogion Cynllunio, Aelodau Cabinet (Cynllunio) a Cadeiryddion Pwyllgorau Cynllunio - a swyddogion Llywodraeth Cymru gan gynnwys y Gweinidog sydd gyfrifol am gynllunio - a disgwylir i glywed os bydd y cyfarfodydd yma'n ail gychwyn. |
| Pwyllgor Pensiynau | 5 | 5 | • Mynychu cyfarfodydd Bwrdd Pensiwn (a bod yn atebol am weithgaredd y Pensiwn at bwrpasau craffu) x 5<br>• Cadeirio'r Panel Buddsoddi x 4<br>• Cynrychiolydd Cronfa Bensiwn Gwynedd ar y Cyd-Bwyllgor Partneriaeth Pensiwn Cymru x 4<br>• Cadeirio Cyfarfod Blynyddol o Gyflogwyr y Gronfa Bensiwn x 1 Cynrychioli'r Cyngor mewn Cyfarfodydd Cenedlaethol x 4 (4 LAPFF – Local Authority Pension Fund Forum) |

| PWYLLGOR | CYFARFODYDD - rhaglenwyd | CYFARFODYDD - Cynhlaiwyd | CYFRIFOLDEBAU YCHWANEGOL |
|---|---|---|---|
| | | | • Mynychu Hyfforddiant / Cynadleddau x 2 (1 Cynhadledd Russell Investments ac 1 Hyfforddiant WPP (Partneriaeth Pensiwn Cymru)) sydd yn benodol yn rôl Cadeirydd y Pwyllgor Pensiynau |
| Pwyllgor Apelau Cyflogaeth | Fel arfer, 11 cyfarfod yn cael ei drefnu (cyfarfod misol), ond oherwydd yr etholiad tua 5 a osodwyd yn y dyddiadur. | 2 gyfarfod byr - dim cyfarfodydd llawn wedi eu cynnal | • Paratoi at achosion cyflogaeth unigol - darllen dogfennau, nifer ohonynt yn swmpus, a pharatoi cwestiynau.<br>• Rheoli'r broses o gynnal y gwrandawiad, gan gadw mewn cof natur gynhennus a sensitif achosion i unigolion.<br>• Cyfrannu i'r broses o lunio llythyr penderfyniad<br>• Mewn achosion cwbl eithriadol, gallai fod gofyn i'r cadeirydd fynychu tribiwnlys cyflogaeth |
| Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth | 3 | 3 | Briffio Cadeirydd / swyddog - 3 gwaith y flwyddyn<br>Dim gofynion ychwanegol wedi bod eleni.<br>Weithiau bydd gofyn mynychu cyfarfodydd cenedlaethol gyda Chymdeithas Llywodraeth Cymru (tua 1 waith y flwyddyn) a Phannel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol (tua 1 waith y flwyddyn). |
| CYSAG | 3 – un bob tymor | 3 | 3 cyfarfod paratoi; Mynychu cyfarfodydd CYSAGau Cymru (arlein) x 3 y flwyddyn; Mynychu ysgolion unigol i arsylwi addoli ar y cyd (heb ddigwydd ers cyn COVID) |
| Pwyllgor Iaith | 4 | 4 | Cyfarfodydd briffio cyn bob cyfarfod. Cadeirydd hefyd yn cael gwahoddiad i fynychu Fforwm Iaith Sirol a Fforwm Iaith Addysg i gynrychioli'r Pwyllgor. Angen i ohebu ar ran y Pwyllgor o bryd i'w gilydd (ryw ddwywaith y flwyddyn) a derbyn ac ymateb i ohebiaeth gan y cyhoedd ar faterion sydd yn berthnasol i'w Pwyllgor. |

| PWYLLGOR | CYFARFODYDD - rhaglenwyd | CYFARFODYDD - Cynhlaiwyd | CYFRIFOLDEBAU YCHWANEGOL |
|---|---|---|---|
| Cyflog Dinesig - Cadeirydd/is-gadeirydd y Cyngor | 5 | 5 | Rhwng Mai 2022 a diwedd Ionawr 2023 mynychwyd **dros ddeugain** o achlysuron er mwyn meithrin hunaniaeth a balchder cymunedol, yn ogystal â hyrwyddo buddiannau ac enw da'r Cyngor. Roedd nifer o'r achlysuron hynny yn rhai y bu'n eu cynnal ei hunan yn rhinwedd ei swydd fel Cadeirydd y Cyngor. Mynychu achlysur a drefnwyd gan adran o'r Cyngor efo'r Arweinydd neu'r Aelod Cabinet yn arwain oedd sawl digwyddiad arall. Gwahoddiadau allanol lle bu'n cynrychioli'r Cyngor fel llysgennad oedd y gweddill. |